Rhif: **WG25728**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **24 Medi 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **17 Rhagfyr 2015**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar y Fframwaith arfaethedig ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru. Mae wedi'i anelu at awdurdodau lleol, byrddau iechyd, arweinwyr diogelwch cymunedol, Swyddogion Trwyddedu yr Heddlu, cymunedau busnes a rhanddeiliaid allweddol yn Economi'r Nos.

## Sut i ymateb

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a fyddech cystal â llenwi'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yma: www.wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/?lang=cy

Gellir anfon ymatebion dros e-bost: at: Substance.misuse@wales.gsi.gov.uk

neu eu hanfon at:

Jacalyn Lewis
Polisi Camddefnyddio Sylweddau,
Busnes Corfforaethol a Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **17 Rhagfyr 2015**.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Cyfeiriad gwe yr ymgynghoriad: www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Jacalyn Lewis
Polisi Camddefnyddio Sylweddau,
Busnes Corfforaethol a Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ebost: Substance.misuse@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 8842

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


Rhan Un ....................................................................................................................4

1. Rhagarweiniad ..........................................................................................................4

Bu ymgynghori sylweddol wrth ddatblygu'r fframwaith hwn. Fe'i datblygwyd i ddechrau drwy Weithgor Economi’r Nos, oedd yn cynnwys amrediad eang o randdeiliaid oedd â diddordeb yn economi’r nos gan gynnwys Heddweision Trwyddedu, Arweinwyr Diogelwch Cymunedol, Swyddogion Diogelwch Tân a Safonau Masnach. Mae ymgynghori pellach wedi digwydd gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys yr Heddlu, Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r gymuned fusnes, y mae ganddynt i gyd gyfrifoldeb cyffredin i greu Cymru fwy diogel ac iach. ..........................................................................5

2. Diffinio Economi’r Nos ...............................................................................................5

3. Y Rhesymeg dros Weithredu ........................................................................................6

4. Y Cyd-destun Deddfwriaethol .......................................................................................7

4.1 Deddf Trwyddedu 2003 ..................................................................................................7

4.2 Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014 ..........................................7

4.3 Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ....................................................8

4.4 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ........................................9

4.5 Deddf Dadreoleiddio 2015 ...............................................................................................9

4.6 Iechyd cyhoeddus (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru) ....................................................10

Un o'r camau mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau yw rheoli pris a fforddiadwyedd alcohol ac felly mae Llywodraeth Cymru yn glir bod rhaid i ymyriad prisio fod yn elfen allweddol o unrhyw strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Ceir tystiolaeth arbennig o dda fod gosod isafswm pris uned ar gyfer alcohol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a niweidiau cymdeithasol, ac mai’r unigolion hynny, sy'n yfed alcohol i lefelau peryglus neu niweidiol, a fyddai'n elwa fwyaf o fesur o'r fath. ..........................................................................................10

Dangoswyd bod gosod isafswm pris uned yn cael effaith ffafriol ar ganlyniadau iechyd, ac amcangyfrifir y byddai Isafswm Pris Uned o 50c yng Nghymru yn arwain at ostyngiad o 53 o farwolaethau a 1,400 o bobl yn llai yn cael eu derbyn i’r ysbyty bob blwyddyn ar ôl 20 mlynedd. Ceir tystiolaeth glir fod gosod isafswm pris uned ar gyfer alcohol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a niweidiau cymdeithasol, ac mai’r unigolion hynny sy'n yfed alcohol i lefelau peryglus neu niweidiol a fyddai'n elwa fwyaf o’r mesur hwn. ..........................................................................................10

Ar ôl ystyried yn ofalus mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chynnwys darpariaeth ym Mil Iechyd Cyhoeddus (Cymru) tra mae peth ansicrwydd ynghylch amseriad penderfyniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar ymholiadau cyfraith yr UE ynglŷn â Deddf Alcohol yr Alban (Isafswm Pris) (yr Alban) 2012. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru’n awyddus i symud ymlaen gyda deddfwriaeth yn y maes hwn cyn gynted â phosibl a chyhoeddir Bil Iechyd Cyhoeddus (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru) ar gyfer ymgynghori yn fuan. ..................................................10

5. Gyrwyr Polisi ..........................................................................................................10

5.1 Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 ..........................................................................................................10

5.2 Polisi Llywodraeth Cymru ar Alcohol yn Economi’r Nos ..................................................11

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd amrywiaeth eang o gamau gweithredu i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol yn economi'r nos a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus i hyrwyddo yfed alcohol yn gyfrifol a gweithio gydag Alcohol Concern Cymru i ddatblygu ystod o ganllawiau arfer da; cymorth ar gyfer cynlluniau peilot Ardaloedd Gweithredu ar Alcohol Lleol yn Abertawe a Sir Benfro (gweler 5.6 isod); a datblygu proses systematig newydd i adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. ..................................................11

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau o blaid cynnwys hyrwyddo iechyd y cyhoedd fel pumed amcan trwyddedu yn Neddf Trwyddedu 2003. Edrychir ar y ffordd y gellir defnyddio data iechyd yn well yn y gyfundrefn drwyddedu bresennol ac fel amcan ar gyfer Polisïau Effaith Gronnus (PEG). .......... 11

Mae amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed yn flaenoriaeth ac anogir awdurdodau cyfrifol i ystyried cynnwys cynllun 'Her 25' (os byddwch yn edrych fel pe baech o dan 25 oed, gofynnir i chi brofi eich bod dros 18 oed pan fyddwch yn prynu alcohol) yn eu datganiad o bolisi trwyddedu. .......... 11

5.3 Strategaeth Alcohol Llywodraeth y DU 2012 .......... 11

5.4 Canllaw Diwygiedig i Awdurdodau Trwyddedu, Hydref 2014 .......... 12

5.5 Arweiniad i Fyrddau Iechyd Lleol ar eu rôl fel awdurdodau cyfrifol .......... 13

5.6 Ardaloedd Gweithredu ar Alcohol Lleol (“LAAA”) .......... 13

5.7 Camddefnyddio Sylweddau – Cyffuriau Rheoledig a Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN) 13

5.10 Yr Amgylchedd Polisi Ehangach .......... 15

6. Hunanreoleiddio’r Diwydiant ac arfer gorau .......... 16

Rhan Dau .......... 18

Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru .......... 18

Atodiad 1 .......... 34

Dogfennau Allweddol .......... 34

Atodiad 2 .......... 36

Geirfa .......... 36

# Rhan Un

# 1. Rhagarweiniad

1a Pwrpas a Nodau

Diben y ddogfen hon yw darparu fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, timau economi'r nos, arweinwyr diogelwch cymunedol a rhanddeiliaid eraill i'w cynorthwyo i ddatblygu a chyflawni cynlluniau a strategaethau lleol i fynd i'r afael ag anhrefn sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein trefi a'n dinasoedd, a gwella mynediad i economi'r nos ar gyfer poblogaeth ehangach. Nod Llywodraeth Cymru yw **hyrwyddo economi nos amrywiol ledled Cymru a gwella ansawdd bywyd drwy ddarparu canol dinasoedd a threfi diogel sy'n hygyrch ac yn ddeniadol i bawb sy'n gweithio, yn ymweld ac yn byw ynddynt.** Yn benodol, ein nod yw:

- Amddiffyn unigolion a chymunedau drwy greu amgylchedd diogel ac iach;
- Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a chyffuriau drwy orfodi rheoliadau trwyddedu; a
- Wynebu ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac ofn troseddau, gan gynnwys ymosodiadau rhywiol, aflonyddu a chaethwasiaeth fodern yng nghyd-destun economi'r nos.

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio isod amrywiaeth eang o gamau gweithredu a awgrymir i helpu Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau (BCA), awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, arweinwyr diogelwch cymunedol a rhanddeiliaid eraill i reoli economi gyda'r nos ac economi'r nos yn effeithiol.

Cydnabyddir, fodd bynnag, na fydd yn ymarferol nac yn angenrheidiol i BCA / awdurdodau lleol / arweinwyr diogelwch cymunedol gymryd camau gweithredu yn yr holl feysydd a amlinellir. Bydd angen i BCA / awdurdodau lleol / arweinwyr diogelwch cymunedol nodi a deall y problemau yn eu hardal neilltuol hwy a blaenoriaethu camau gweithredu ar sail angen ac amgylchiadau lleol. Anogir BCA / awdurdodau lleol /arweinwyr diogelwch cymunedol a rhanddeiliaid eraill i ddefnyddio'r fframwaith hwn fel sail a chanllaw i gyfeirio ato wrth ddatblygu strategaethau lleol i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol a chreu amgylchedd diogel a chroesawgar i bawb.

1b Y Cyd-Destun Strategol a Pholisi

Mae'r ddogfen yn ymateb i ymrwymiad o fewn Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013-15 i adolygu fframwaith economi'r nos ac mae'n dwyn ynghyd y polisi sydd wedi'i ddiweddaru a'r cyd-destun deddfwriaethol yn un lleoliad. Mae'n awgrymu amrywiaeth o gamau y dylai arweinwyr diogelwch cymunedol a phartneriaid perthnasol eraill ystyried eu gweithredu. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod polisïau a materion cynllunio a thrwyddedu yn cael eu cydlynu'n effeithiol;
- Darparu cyfleusterau priodol ar gyfer holl ddefnyddwyr canol dinasoedd a threfi;
- Creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn y nos;
- Cysylltu Strategaethau Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau ar lefel strategol â chynlluniau'r Heddlu a Throseddu a chefnogi asesiadau trosedd ac anhrefn strategol ar gyfer yr ardal;
- Cynllunio gweithgarwch gorfodi gyda'r nod o leihau niwed i gymunedau o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau;
- Rhannu gwybodaeth, deallusrwydd ac adnoddau ymhlith asiantaethau sy'n bartneriaid;
- Glynu at y Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl;

- Canolbwyntio ar leihau anafiadau cysylltiedig ag alcohol fel blaenoriaeth.

Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi ac yn cyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru '*Ein Dyfodol Iach*' sy'n gosod y sylfaen ar gyfer iechyd cyhoeddus ledled Cymru; y 'Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Cymru, *Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed'*; '*Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu'; '*Plant a Phobl ifanc yn Gyntaf: Strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol';* a strategaeth *''Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'*. Mae'r fframwaith hefyd yn cefnogi amcanion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Bydd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu o fewn y fframwaith hwn yn gofyn am gydweithredu agos rhwng partneriaid sydd â diddordeb yn economi'r nos, gan gynnwys y rheiny nad yw eu swyddogaethau wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd amrywiaeth o enghreifftiau arfer gorau o gamau a gymerwyd i reoli economi'r nos mewn amrywiaeth o drefi a dinasoedd ledled y DU. Nid yw wedi ei fwriadu i roi cyfarwyddyd ac nid oes disgwyl i bob tîm sy'n gyfrifol am reoli economi'r nos yng Nghymru roi pob cam gweithredu yn y fframwaith hwn ar waith. Fodd bynnag, bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel man cyfeirio y gall partneriaid ei ddefnyddio wrth ystyried pa gamau gweithredu ychwanegol y gellid eu cymryd i gryfhau rheolaeth economi'r nos yn eu hardal.

<u>1c Datblygu'r Fframwaith</u>

Bu ymgynghori sylweddol wrth ddatblygu'r fframwaith hwn. Fe'i datblygwyd i ddechrau drwy Weithgor Economi'r Nos, oedd yn cynnwys amrediad eang o randdeiliaid oedd â diddordeb yn economi'r nos gan gynnwys Heddweision Trwyddedu, Arweinwyr Diogelwch Cymunedol, Swyddogion Diogelwch Tân a Safonau Masnach. Mae ymgynghori pellach wedi digwydd gyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys yr Heddlu, Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r gymuned fusnes, y mae ganddynt i gyd gyfrifoldeb cyffredin i greu Cymru fwy diogel ac iach.

# 2. Diffinio Economi'r Nos

Nid oes diffiniad safonol ar gyfer economi'r nos. I ddibenion y fframwaith hwn – sy'n ystyried alcohol a chyffuriau hefyd – mae economi'r nos yn ymwneud â gweithgaredd economaidd sy'n digwydd rhwng 6 o'r gloch yr hwyr a 6 o'r gloch y bore.

Mae gwerthu alcohol ar gyfer ei yfed 'ar-fasnach' yn cyfeirio at safle sydd wedi ei drwyddedu i werthu alcohol sy'n cael ei yfed ar y safle e.e. bar neu dafarn. Mae hyn yn cyferbynnu â safle 'all-fasnach' lle nad yw'r drwydded yn caniatáu ond gwerthu alcohol, y bydd rhaid wedyn ei yfed oddi ar y safle e.e. archfarchnadoedd. Fodd bynnag, mae'r safleoedd hyn hefyd yn chwarae rhan bwysig yn economi'r nos ac yn effeithio ar lefelau meddwdod, gyda'r cynnydd yn yr arferiad o yfed ymlaen llaw, pan fydd alcohol rhatach yn cael ei yfed gartref cyn cyrraedd y dafarn neu'r bar. Canfu un astudiaeth fod y rheiny oedd wedi bod yn yfed ymlaen llaw ddwywaith a hanner mwy tebygol o fod â rhan mewn trais nag yfwyr eraill.[1] Mae'r fframwaith polisi hwn felly yn mynd i'r afael â rheolaeth yr ar-fasnach a'r all-fasnach yn ogystal ag amgylchedd ehangach canol y dref.

[1] Hughes, K., Anderson, Z., Morleo, M. and Bellis, M.A. (2008) '*Alcohol, nightlife and violence: the relative contributions of drinking before and during nights out to negative health and criminal justice outcomes*', Addiction, 103 (1), pp 60-5.

# 3. Y Rhesymeg dros Weithredu

Mae llawer o fanteision i gefnogi twf yn economi'r nos, pan gaiff yr amodau iawn eu cynnal. Gall gynhyrchu gweithgaredd economaidd sylweddol a chyfleoedd gwaith ac annog yfed cyfrifol mewn amgylchedd diogel a difyr.

Fodd bynnag, gellir cysylltu'r twf yn economi gyda'r nos ac economi'r nos hefyd â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a chamddefnyddio sylweddau. Mae mynediad at gyflenwad o alcohol wedi cynyddu drwy newidiadau yn y ddeddfwriaeth drwyddedu, ynghyd â gostyngiad ym mhris cymharol alcohol. Mae cyffuriau anghyfreithlon yn ymddangos yn dal yn hawdd cael gafael arnynt ac mae eu prisiau hwythau wedi parhau i ostwng.[2] At hynny, mae yna bryderon cynyddol am lefelau y troseddu a'r anhrefn cysylltiedig ag alcohol yn ein trefi a'n dinasoedd. Dywed ffigurau'r Swyddfa Gartref fod y dioddefwyr, yn 44% o'r holl achosion treisgar a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr, yn credu bod eu hymosodwr o dan ddylanwad alcohol. Mae'r ffigur hwn yn codi i 58% ar gyfer 'trais dieithriaid' (lle mae'r ymosodwr yn ddieithr i'r dioddefwr).[3]

Mae costau camddefnyddio alcohol yn sylweddol hefyd yn economi'r nos. Amcangyfrifwyd bod troseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol wedi costio £365m yn 2006.[4] Amcangyfrifir bod cost goryfed alcohol i'r GIG yng Nghymru rhwng £69.9 miliwn a £73.3 miliwn yn 2008-09, sef cyfanswm o rhwng 1.27% a 1.33% o holl wariant gofal iechyd. O hyn, gwariwyd tua £35.3m - £37.5m ar ymweliadau cysylltiedig ag alcohol i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.[5]

Yn y cyd-destun ehangach, y niweidiau sy'n gysylltiedig ag yfed gormod o alcohol a sylweddau meddwol eraill yw ffocws y fframwaith hwn a gallant gynnwys:

- Cynnydd mewn troseddau ac ofn troseddau;
- Amgylchedd ffafriol i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau seicoweithredol newydd;
- Galw cynyddol ar wasanaethau gofal iechyd brys;
- Costau cynyddol o lanhau strydoedd o gwmpas safleoedd trwyddedig a siopau bwyd parod hwyr y nos;
- Gwerthu alcohol i bobl dan oed;
- Llygredd sŵn a golau;
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- Chynhyrchu dibyniaeth amhriodol a diangen ar wasanaethau iechyd meddwl fel sgil-gynnyrch ymddygiad meddwol ac ynghyd â hyn gostau ar wasanaethau'r heddlu, iechyd a'r awdurdod lleol.

Dylai unrhyw fframwaith ar gyfer ymdrin ag economi'r nos anelu at sicrhau bod buddion net y gweithgarwch economaidd gyda'r nos/yn y nos yn cael eu cynyddu i'r eithaf a'r costau'n cael eu lleihau. Dylai arweinwyr diogelwch cymunedol lleol hefyd ystyried mesurau sy'n trosglwyddo rhai o'r costau hyn i'r rhai sy'n eu hachosi, busnesau trwyddedig (er enghraifft, drwy'r Ardoll Hwyr y Nos (LNL)) ac unigolion (er enghraifft, drwy gosbau penodedig).

[2] Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed*
[3] Arolwg Troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr 2010-2011
[4] Cyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru (2006) *Addressing Alcohol Misuse Issues*
[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Assessing the costs to the NHS associated with alcohol and obesity* in *Wales* http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/alcoholmisuseandobesityreporten.doc

# 4. Y Cyd-destun Deddfwriaethol

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae nifer o fentrau polisi a newidiadau deddfwriaethol wedi cyfrannu at y twf sylweddol yn economi gyda'r nos ac economi'r nos yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae datblygiadau deddfwriaethol yn y degawd diwethaf wedi newid yn sylweddol y pwerau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag economi'r nos.

## 4.1 Deddf Trwyddedu 2003

Fe wnaeth Deddf Trwyddedu 2003 ("Deddf 2003") ddiddymu deddfau trwyddedu blaenorol a symud y cyfrifoldeb am drwyddedu oddi wrth ynadon i awdurdodau lleol. Ceisiodd fynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng safleoedd a gâi eu rheoli'n wael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; a rhwng oriau cau safonol, tagfeydd mewn strydoedd a thrais yn cael ei yrru gan alcohol.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rheoleiddio trwyddedu safleoedd yng Nghymru a Lloegr sy'n gwerthu diodydd alcoholig, megis clybiau nos, tai bwyta a siopau. Mae darpariaeth yn Neddf 2003 i'r drefn drwyddedu gael ei gorfodi gan awdurdodau trwyddedu. Yng Nghymru yr awdurdod trwyddedu yw'r "cyngor sir neu fwrdeistref"; felly, yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yng Nghymru am weithredu'r ddeddfwriaeth drwyddedu yn eu hardal.

Wrth arfer eu swyddogaethau dan Ddeddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys penderfyniadau p'un a ddylent roi trwydded, rhaid i awdurdod trwyddedu wneud hynny gyda golwg ar hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Yr amcanion hyn yw:

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus; ac
- amddiffyn plant rhag niwed.

Mae'n rhaid i ddeiliaid trwydded gwrdd â'r amodau trwyddedu gorfodol sydd wedi eu hegluro yn adran 19 o Ddeddf 2003 ynghyd ag unrhyw amodau pellach a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy Orchymyn dan adran 19A o Ddeddf 2003.

## 4.2 Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Roedd Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 ("Gorchymyn 2010") yn gosod pum amod sy'n berthnasol i bob safle yng Nghymru a Lloegr sydd wedi ei awdurdodi i gyflenwi alcohol dan drwydded safle neu dystysgrif safle clwb. Daeth y tri cyntaf o'r amodau hyn i rym ar 6 Ebrill 2010, gyda'r ddau arall (sy'n ymwneud â safleoedd sy'n cymhwyso polisi dilysu oedran ac yn cynnig mesurau llai o ddiodydd) yn dod i rym chwe mis yn ddiweddarach.

Ar 28 Mai 2014, daeth amod gorfodol newydd i rym, oedd yn gwahardd gwerthu alcohol am bris is na'r gost o doll ynghyd â TAW. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU God Ymarfer mandadol o ran y cyfyngiad ar alcohol sy'n cael ei werthu am bris is na tholl alcohol ynghyd â TAW. Mae'r amod hon yn rhwystro busnesau rhag gwerthu alcohol am brisiau gostyngol iawn a'i bwriad yw lleihau goryfed alcohol ac effaith gysylltiedig hynny ar iechyd, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallai methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad arwain at hyd at 6 mis o garchar a/neu ddirwy o £20,000.

Fe wnaeth Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014 ("Gorchymyn 2014") ddiwygio Gorchymyn 2010 a disodli'r amodau mandadol a ragnodwyd yng Ngorchymyn 2010 â'r amodau yng Ngorchymyn 2014. Mae'r amodau yn berthnasol i'r holl drwyddedau safle perthnasol a thystysgrifau safleoedd clwb sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle, ac eithrio'r amod dilysu oedran, sydd hefyd yn berthnasol i drwyddedau a thystysgrifau sy'n caniatáu cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

Nod Gorchymyn 2014 yw tynhau'r amodau trwyddedu mandadol presennol sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd hybu anghyfrifol, darparu dŵr am ddim, mabwysiadu a chymhwyso polisïau dilysu oedran a darparu mesurau bach ar safleoedd trwyddedig. Mae cyfanswm o bum amod fandadol yn berthnasol.

Mae'r amodau mandadol yn cynnwys:

- Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar safle perthnasol yn cynnal, trefnu nac yn cymryd rhan mewn unrhyw ymgyrchoedd hybu anghyfrifol mewn perthynas â'r safle. Mae ymgyrchoedd hybu anghyfrifol yn cynnwys gemau a gweithgareddau yfed pan fydd alcohol yn cael ei dywallt i geg y cwsmer, neu ymgyrchoedd hybu lle mae risg sylweddol i'r amcanion trwyddedu, megis diodydd diderfyn am bris penodol, neu ddefnyddio alcohol fel gwobr;
- Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod dŵr yfed yn cael ei ddarparu am ddim i gwsmeriaid, os gofynnir, lle mae ar gael yn rhesymol:
- Rhaid i ddeiliad trwydded y safle neu dystysgrif safle clwb sicrhau bod polisi dilysu oedran yn cael ei fabwysiadu mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol;
- Gwaherddir gwerthu alcohol am bris is na'r un a ganiateir. Y pris a ganiateir yw'r 'gost' (lefel toll alcohol ar gyfer cynnyrch) ynghyd â Threth ar Werth (fel fyddai yn daladwy ar elfen doll pris y cynnyrch).

## 4.3 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

Ychwanegodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 awdurdodau trwyddedu a byrddau iechyd lleol fel awdurdodau cyfrifol o ran trwyddedu. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod awdurdodau trwyddedu a'r bwrdd iechyd lleol mewn gwell sefyllfa i gymryd camau y maent yn eu hystyried yn briodol i fynd i'r afael â safleoedd anghyfrifol, heb orfod disgwyl am sylwadau gan awdurdodau cyfrifol eraill. Mae'r pwerau ychwanegol yn cynnwys:

**Ardoll hwyr y nos (LNL) –** Mae'r LNL yn galluogi awdurdodau trwyddedu i godi cyfraniad gan gyflenwyr alcohol sy'n agor yn hwyr y nos tuag at blismona economi'r nos. Pŵer lleol yw hwn y gall awdurdodau trwyddedu ddewis ei arfer neu beidio. Gall yr awdurdod trwyddedu ddewis y cyfnod y bydd yr ardoll yn berthnasol iddo bob nos, rhwng hanner nos a 6 o'r gloch y bore, a phenderfynu pa ostyngiadau ac eithriadau sydd i gael eu cymhwyso. Mae'r ardoll yn daladwy gan ddeiliaid trwydded unrhyw safle neu dystysgrif safle clwb yn ardal yr awdurdod, sy'n awdurdodi gwerthu alcohol yn ystod y "cyfnod cyflenwi'n hwyr y nos" (12 o'r gloch y nos hyd 6 o'r gloch y bore). Hyd yma, mae chwe awdurdod trwyddedu (i gyd yn Lloegr) yn bwriadu cyflwyno y LNL yn 2014.[6]

**Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore (EMRO) –** Mae pŵer EMRO yn galluogi'r holl awdurdodau trwyddedu i gyfyngu ar werthiant alcohol yn y cyfan neu ran o'u hardaloedd ar unrhyw gyfnod penodedig rhwng 12 hanner nos a 6 o'r gloch y bore, os byddant yn ystyried hyn yn briodol ar gyfer hyrwyddo amcanion trwyddedu. Cynlluniwyd yr EMRO i fynd i'r afael â phroblemau sy'n digwydd yn gyson megis lefelau uchel o drosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig

[6] Ceir yr arweiniad diweddaraf ar ddefnydd yr Ardoll hwyr y nos yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118369/late-night-levy-guidance.pdf

ag alcohol mewn ardaloedd penodol ar adegau penodol; niwsans cyhoeddus difrifol; ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i safle penodol. Mae hyn yn berthnasol i bob safle trwyddedig mewn ardal leol, yn hytrach na safleoedd unigol sy'n broblem. Dylai'r defnydd o'r mesur hwn fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn rhesymol, yn gyfiawn ac yn gymesur. Ceir arweiniad pellach ynghylch y defnydd o EMRO ym Mhennod 16 y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003.[7]

## 4.4 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

Rhoddodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 bwerau newydd i'r heddlu ac asiantaethau lleol.

Mae'r pwerau hyn yn cynnwys:

- Gorchymyn Ymddygiad Troseddol: Gall unigolion gael eu gorfodi gan y Llys i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth camddefnyddio sylweddau;
- Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus: Mae'n caniatáu i asiantaethau lleol dargedu ardaloedd â phroblem o anhrefn cysylltiedig ag alcohol ac mae wedi'i fwriadu i atal unigolion neu grwpiau rhag cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus;
- Pŵer Gwasgaru: Mae'n rhoi pwerau i'r heddlu orchymyn i berson sy'n cyflawni, neu'n debygol o gyflawni, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd neu anhrefn adael ardal am hyd at 48 awr;
- Hysbysiadau Amddiffyn y Gymuned: Bwriadwyd y rhain i atal person 16 oed neu hŷn, busnes neu sefydliad rhag cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n difetha ansawdd bywyd y gymuned;
- Cau safleoedd sy'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn: Mae hwn yn disodli'r pŵer cau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer eiddo trwyddedig. Mae hyn yn caniatáu i'r heddlu neu'r awdurdod lleol gau safle yn gyflym os yw'n cael ei ddefnyddio, neu'n debygol o gael ei ddefnyddio, i gyflawni niwsans neu anhrefn.

## 4.5 Deddf Dadreoleiddio 2015

Mae Deddf Dadreoleiddio 2015 yn gwneud darpariaeth ar gyfer lleihau beichiau sy'n deillio o ddeddfwriaeth ar gyfer busnesau ac unigolion.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

- Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro: Cynyddu'r nifer y gellir eu cynnal bob blwyddyn ar un safle o 12 i 15;
- Adnewyddu trwyddedau personol: diddymwyd y gofyniad presennol i adnewyddu trwydded bersonol bob deng mlynedd;
- Lluniaeth hwyr y nos: Mae awdurdodau trwyddedu'n gallu gwneud eithriadau o fewn eu hardaloedd lleol ar sail lleoliad neu fath o fusnes, neu newid yr oriau trwyddedu yn eu hardal;
- Trwyddedau a gollwyd: Diddymwyd yr angen i ddeiliaid trwyddedau adrodd wrth yr heddlu am golli neu ddwyn eu dogfennau trwydded a dangos tystiolaeth eu bod wedi gwneud hyn;
- Hysbysiad Cymunedol ac Ategol: Awdurdodiad tair blynedd ysgafn, newydd, fydd yn darparu dewis rhatach, symlach a haws ar gyfer rhai busnesau penodol a grwpiau cymunedol yn lle awdurdodiadau eraill.

[7] https://www.gov.uk/government/publications/explanatory-memorandum-revised-guidance-issued-under-s-182-of-licensing-act-2003

### 4.6 Iechyd cyhoeddus (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru)

Un o'r camau mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau yw rheoli pris a fforddiadwyedd alcohol ac felly mae Llywodraeth Cymru yn glir bod rhaid i ymyriad prisio fod yn elfen allweddol o unrhyw strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Ceir tystiolaeth arbennig o dda fod gosod isafswm pris uned ar gyfer alcohol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a niweidiau cymdeithasol, ac mai'r unigolion hynny, sy'n yfed alcohol i lefelau peryglus neu niweidiol, a fyddai'n elwa fwyaf o fesur o'r fath.

Dangoswyd bod gosod isafswm pris uned yn cael effaith ffafriol ar ganlyniadau iechyd, ac amcangyfrifir y byddai Isafswm Pris Uned o 50c yng Nghymru yn arwain at ostyngiad o 53 o farwolaethau a 1,400 o bobl yn llai yn cael eu derbyn i'r ysbyty bob blwyddyn ar ôl 20 mlynedd. Ceir tystiolaeth glir fod gosod isafswm pris uned ar gyfer alcohol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a niweidiau cymdeithasol, ac mai'r unigolion hynny sy'n yfed alcohol i lefelau peryglus neu niweidiol a fyddai'n elwa fwyaf o'r mesur hwn.

Ar ôl ystyried yn ofalus mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chynnwys darpariaeth ym Mil Iechyd Cyhoeddus (Cymru) tra mae peth ansicrwydd ynghylch amseriad penderfyniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar ymholiadau cyfraith yr UE ynglŷn â Deddf Alcohol yr Alban (Isafswm Pris) (yr Alban) 2012. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i symud ymlaen gyda deddfwriaeth yn y maes hwn cyn gynted â phosibl a chyhoeddir Bil Iechyd Cyhoeddus (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru) ar gyfer ymgynghori yn fuan.

### 4.7 Yr Iaith Gymraeg

Mae gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus gyfrifoldeb i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n gosod dyletswydd ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg, gan alluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith o'u dewis.

Mae "Mwy na geiriau", y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, yn ategu'r mesur. Mae'n pwysleisio'r angen i bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gydnabod mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall rhai unigolion gyfathrebu'n gyfforddus ac yn effeithiol. Mae hi'n bwysig felly darparu gwasanaethau priodol i ateb eu hanghenion ieithyddol. Am hynny, mae'r fframwaith yn gofyn i awdurdodau lleol, timau economi'r nos, arweinwyr diogelwch cymunedol a rhanddeiliaid eraill weithredu o fewn y dyletswyddau cyfreithiol hyn a sicrhau bod gwasanaethau o fewn cyrraedd yn Gymraeg a bod gan gleientiaid yr hawl i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny.

## 5. Gyrwyr Polisi

Ceir nifer o bolisïau ledled y DU a Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i fanteisio ar botensial economi'r nos i gyfrannu at dwf economaidd a ffyniant cymunedau, tra'n lleihau'r risgiau i iechyd, yr amgylchedd a diogelwch y cyhoedd. Mae'r fframwaith yn awgrymu camau gweithredu y gellir eu cymryd fel y nodir yn Atodiad 1, ac mae'n rhoi cyfeiriadau ar gyfer y polisïau hyn, ond dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r gyrwyr polisi canlynol yn benodol:

### 5.1 Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018

"*Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed"* yw strategaeth camddefnyddio sylweddau 10-mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill. Caiff y strategaeth ei chefnogi gan Gynllun Cyflawni

Camddefnyddio Sylweddau 2013-15 ac mae'n gosod agenda genedlaethol glir ar gyfer y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn mynd i'r afael â'r broblem a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn rhoi blaenoriaeth i bedwar maes gweithredu:

- Atal niwed
- Cymorth ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Cefnogi ac amddiffyn teuluoedd
- Mynd i'r afael ag argaeledd ac amddiffyn unigolion a chymunedau - lleihau'r niwed a achosir gan droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, drwy fynd i'r afael ag argaeledd cyffuriau anghyfreithlon ac argaeledd amhriodol alcohol a sylweddau eraill.

Mae mynd i'r afael ag anhrefn gysylltiedig ag alcohol ac argaeledd cyffuriau felly yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y strategaeth; ac mae'n amlygu pwysigrwydd yr angen i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i reoli'n effeithiol yr economi gyda'r nos ac economi'r nos yn eu hardal.

## 5.2 Polisi Llywodraeth Cymru ar Alcohol yn Economi'r Nos

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd amrywiaeth eang o gamau gweithredu i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol yn economi'r nos a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus i hyrwyddo yfed alcohol yn gyfrifol a gweithio gydag Alcohol Concern Cymru i ddatblygu ystod o ganllawiau arfer da; cymorth ar gyfer cynlluniau peilot Ardaloedd Gweithredu ar Alcohol Lleol yn Abertawe a Sir Benfro (gweler 5.6 isod); a datblygu proses systematig newydd i adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau o blaid cynnwys hyrwyddo iechyd y cyhoedd fel pumed amcan trwyddedu yn Neddf Trwyddedu 2003. Edrychir ar y ffordd y gellir defnyddio data iechyd yn well yn y gyfundrefn drwyddedu bresennol ac fel amcan ar gyfer Polisïau Effaith Gronnus (PEG).

Mae amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed yn flaenoriaeth ac anogir awdurdodau cyfrifol i ystyried cynnwys cynllun 'Her 25' (os byddwch yn edrych fel pe baech o dan 25 oed, gofynnir i chi brofi eich bod dros 18 oed pan fyddwch yn prynu alcohol) yn eu datganiad o bolisi trwyddedu.

## 5.3 Strategaeth Alcohol Llywodraeth y DU 2012

Cymerwyd nifer o gamau gan Lywodraeth y DU yn y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Alcohol Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2012 a nifer o ymgynghoriadau dilynol. Mae hyn wedi galluogi asiantaethau lleol i gael mwy o reolaeth dros drwyddedu, i fynd i'r afael â meysydd a busnesau sy'n broblem:

- Mae awdurdodau trwyddedu a chyrff iechyd lleol yn awr yn 'gyrff cyfrifol' o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, a gallant gychwyn adolygiad trwydded yn haws;
- Erbyn hyn mae'n haws gwrthod, diddymu, neu osod amodau ar drwydded, lle bo'n briodol, gan gynnwys am werthu alcohol yn gyson i bobl ifanc;
- Gall EMRO (gweler uchod) gyfyngu ar werthu alcohol yn hwyr y nos mewn ardaloedd problemus;
- Gellir defnyddio Polisïau Effaith Gronnus i leihau dwysedd y safleoedd ar-fasnach ac all-fasnach; a
- Gall awdurdodau trwyddedu hefyd ddefnyddio amser cau sefydlog neu gyfnodol, a chreu parthau lle bo angen;

- Gellir defnyddio y LNL (gweler uchod) i sicrhau plismona gweladwy, rhagweithiol i sicrhau diogelwch mewn ardaloedd trwyddedu dwysedd uchel.

Mae Strategaeth Alcohol Llywodraeth y DU hefyd yn annog ardaloedd lleol i fynd i'r afael ag unigolion sy’n broblem, ac mae’n annog defnyddio camau gweithredu gan gynnwys erlyn, a chynnal profion prynu lle bo'n briodol. Yn benodol, mae Llywodraeth y DU yn argymell i ardaloedd lleol ddefnyddio’r pwerau sydd ganddynt eisoes i gyflawni'r amcanion trwyddedu:

- Erlyn rhai sy’n berchen trwydded sy’n gwerthu alcohol yn fwriadol i feddwyn;
- Atafaelu alcohol oddi ar bobl ifanc (o dan 18 oed) ac erlyn am feddu ar alcohol yn gyson mewn man cyhoeddus;
- Achredu staff diogelwch ysbyty, gan ganiatáu iddynt ddyroddi Hysbysiadau Cosb am Anhrefn;
- Gellir defnyddio cynlluniau sobrwydd gorfodol ar gyfer y rheiny a gafwyd yn euog o droseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol; a
- Ddylai ysbytai rannu data sydd heb fod yn bersonol gyda’r heddlu i fynd i'r afael â thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol, ar hyd llinellau model Caerdydd.[8]

Mae Strategaeth Alcohol Llywodraeth y DU yn nodi ymhellach nifer o ddarpariaethau i annog gwerthu alcohol yn gyfrifol yn yr ar-fasnach, a roddwyd ar waith mewn is-ddeddfwriaeth i Ddeddf Trwyddedu 2003, yn 2010 a 2014 (gweler uchod), er mwyn gwneud yr amodau trwyddedu mandadol yn fwy effeithiol a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson.

## 5.4 Canllaw Diwygiedig i Awdurdodau Trwyddedu, Hydref 2014

Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllaw diwygiedig o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Rhaid i awdurdodau trwyddedu roi sylw i'r canllaw hwn wrth lunio eu datganiad polisi trwyddedu eu hunain, ac wrth gyflawni'r holl swyddogaethau eraill, er y cânt wyro oddi wrth y naill neu’r llall os bydd ganddynt reswm da. Efallai y bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol i randdeiliaid eraill hefyd, gan gynnwys arweinwyr diogelwch cymunedol, gan ei fod yn nodi arfer gorau a’i fod yn anelu at sicrhau bod pwerau trwyddedu yn cael eu gweithredu’n gyson ar draws Cymru a Lloegr ac at hyrwyddo tegwch, triniaeth gyfartal a chymesuredd.

Yn ogystal â chyngor ar weithredu darpariaethau'r ddeddfwriaeth, mae'r canllaw yn cynnwys gweithdrefnau i ddatblygu datganiadau polisi trwyddedu (DPT), gan gynnwys ystyried polisïau arbennig fel PEG. Gall DPT wedi'i ddrafftio'n dda fod o gymorth i sicrhau bod amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo – a bod cyfundrefn drwyddedu effeithiol yn ei lle, gan gynnwys defnyddio amodau ar drwyddedau lle bo angen. Gall DPT sy'n nodi blaenoriaethau lleol a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod o gymorth i herio penderfyniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfrifol.

Lle y ceir tystiolaeth fod cwsmeriaid eiddo trwyddedig yn achosi troseddau, anhrefn neu niwsans mewn ardal benodol, gellir defnyddio PEG. Mae hyn yn creu tybiaeth (amodol) y bydd ceisiadau am drwyddedau sy’n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnus sy’n bod eisoes yn cael eu gwrthod fel arfer neu’n cael eu rhoi dan gyfyngiadau, os na all yr ymgeisydd ddangos na fydd unrhyw effaith negyddol. Dylid nodi y gellir defnyddio'r PEG ar gyfer ardaloedd cymharol fach. Gallant hefyd ganolbwyntio ar dargedu mathau penodol o safle (e.e. prydau parod yn hwyr y nos), neu i hyrwyddo amcanion penodol (e.e. i atal niwsans cyhoeddus sy'n deillio o lygredd sŵn). Mae paragraffau 13.23 - 13.38 y canllaw hwn yn cynnwys mwy o wybodaeth am PEG.

[8] Florence, C., Shepherd, J. Brennan, I. and Simon, T. (2011) :'*Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, police, and local government partnership for preventing violence related injury: experimental study and time series analysis’*. British Medical Journal 2011

## 5.5 Arweiniad i Fyrddau Iechyd Lleol ar eu rôl fel awdurdodau cyfrifol

Mae arweiniad ar rôl byrddau iechyd lleol fel awdurdodau cyfrifol wedi ei egluro yn nogfen y Swyddfa Gartref**,** *Additional Guidance for health bodies on exercising functions under the Licensing Act 2003.*[9] Er nad yw iechyd yn amcan trwyddedu (gweler 4.2 uchod). Mae arweiniad ychwanegol gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr (*Public health and the Licensing Act 2003 – guidance from PHE and the Local Government Association, October 2014*) yn dangos sut y gall tystiolaeth o effaith ar iechyd gyfrannu i adolygiadau trwyddedau, yn ogystal â datblygiad DPT a PEG, ar sail diogelwch y cyhoedd, lleihau troseddu a niwsans cyhoeddus, ac amddiffyn plant rhag niwed.[10]

## 5.6 Ardaloedd Gweithredu ar Alcohol Lleol ("LAAA")

Cynllun y Swyddfa Gartref yw'r rhaglen LAAA sy'n anelu at leihau troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol, lleihau effeithiau negyddol ar iechyd a achosir gan alcohol a hybu Economïau Nos amrywiol a bywiog. Fe'i lansiwyd ym mis Chwefror 2014 a bu'n rhedeg tan fis Mawrth 2015. Ceir 20 o ardaloedd ar draws Cymru a Lloegr, lle mae asiantaethau lleol, gan gynnwys awdurdodau trwyddedu, cyrff iechyd a'r heddlu wedi dod ynghyd gyda'r cynlluniau partneriaeth lleol gorau a'r diwydiant alcohol i fynd i'r afael â phroblemau lleol a chyflawni un, dwy neu bob un o'r nodau hyn.

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru ddwy LAAA, yn Sir Benfro ac Abertawe, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd canlyniadau'r rhaglen hon yng ngwanwyn 2015 ac maent yn rhoi enghreifftiau o gynlluniau arfer gorau.

## 5.7 Camddefnyddio Sylweddau – Cyffuriau Rheoledig a Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN)

Mae camddefnyddio cyffuriau rheoledig yn parhau i fod yn broblem, ac mae sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gorfodi, yn ogystal â lleihau'r niwed cysylltiedig ag iechyd a throseddu a achosir gan gyffuriau anghyfreithlon, yn hanfodol i Economi Nos lewyrchus. Roedd y gyfran o oedolion rhwng 16 a 24 mlwydd oed, oedd wedi cymryd unrhyw gyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn 18.9% yn 2013/14, cynnydd o 16.2% yn 2012/13. Canabis oedd y cyffur a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin yn y flwyddyn ddiwethaf, wedyn cocên (2.4%) ac yna ecstasi (1.6%).[11] Y cynnydd yn y defnydd o cocên (i fyny o 1.9% yn 2012/13) oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am y cynnydd cyffredinol yn y defnydd o gyffuriau rhwng 2012/13 a 2013/14.
Yn ogystal â gweithredu i blismona gwaith i dargedu gweithgaredd troseddol difrifol mewn cyflenwi cyffuriau, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod safleoedd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â defnydd, meddiant a gwerthiant cyffuriau 'clwb', yn ogystal ag atal niwed i gwsmeriaid.[12] Mae cysylltiad cryf rhwng y defnydd o gocên ac yfed alcohol yn Economi'r Nos, ac mae'r Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau yn argymell y dylai'r lleoliadau fod wedi eu paratoi i ymdrin â phroblemau acíwt sy'n gysylltiedig â defnyddio cocên.[13] Dylid darparu deunyddiau addysgol hefyd ar gyfer y lleoliadau sy'n ymwneud ag effeithiau cocên a chyffuriau 'clwb' eraill.

---

[9] https://www.gov.uk/government/publications/additional-guidance-for-health-bodies-on-exercising-functions
[10] www.nta.nhs.**uk**/PHE-**licensing**-**guidance**-2014.aspx
[11] Yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2013/14 (https://www.gov.uk/government/publications/drug-misuse-findings-from-the-2013-to-2014-csew/drug-misuse-findings-from-the-201314-crime-survey-for-england-and-wales)
[12] Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn ag effaith cyffuriau clwb yn adroddiad statws Drugscope - http://www.drugscope.org.uk/resources/New+psychoactive+substances
[13] Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau, (Mawrth 2015), '*Cocaine Powder: Review of the evidence of use, harms and public health implications'*. https://www.gov.uk/government/publications/cocaine-powder-review-of-its-prevalence-patterns-of-use-and-harm

Mae rhai ffactorau allweddol yn gwaethygu risgiau iechyd cymryd cyffuriau, gan gynnwys: cymryd cyfuniadau o gyffuriau rheoledig a/neu gymysgu'r rhain ag alcohol, gorboethi ac ymarfer hyd at ddiffygio. Dylai awdurdodau lleol ystyried a yw safleoedd clwb nos wedi cymryd camau priodol i leihau'r risgiau, er enghraifft, sicrhau awyru da, strategaethau i atal gorlenwi, mannau ymlacio a darparu dŵr yfed. Mae'r fframwaith yn rhestru camau gweithredu pellach y gall safleoedd eu cymryd i greu amgylchedd diogel. Lle y defnyddir chwiliadau drws yn aml, gallai dull o leihau niwed hefyd gynnwys defnyddio blychau amnest neu rywbeth tebyg i annog mynychwyr y clwb i ildio eu cyflenwadau o gyffuriau er mwyn cael mynd i mewn i glybiau.

Dylai awdurdodau lleol hefyd ddal i fod yn wyliadwrus ynghylch y defnydd o sylweddau seicoweithredol newydd (SSN). Er bod Meffedron a Naffyron wedi dod yn gyffuriau dosbarth B yn ddiweddar, mae llawer mwy o sylweddau sydd eto i gael eu hadnabod yn gywir, eu profi neu eu gwneud yn destun rheolaeth gan gyfraith y DU. Er bod yr atafaeliadau o Meffedron wedi gostwng yng Nghymru yn 2013-14, mae nifer yr achosion yn dal yn uchel ar draws Canolbarth a De Cymru. Mae SSN yn gosod risgiau ychwanegol; cafwyd bod 91% o'r rhain yn cynnwys 2 gynhwysyn actif o leiaf.[14] Dylai staff bar a chlwb fod wedi eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf a dylai eu hyfforddiant fod yn ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod symptomau cyffuriau mwy newydd/poblogaidd yn ddiweddar.

Ers 2008/09, bu cynnydd cyson yn y defnydd o SSN yn y DU. Yn 2013, penododd y Swyddfa Gartref banel adolygu arbenigol i ystyried effeithiolrwydd Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 o ran mynd i'r afael ag SSN. Cyhoeddwyd yr adroddiad wedyn ym mis Medi 2014. Nodai anawsterau gyda'r dull presennol ac argymhellai waharddiad cyffredinol. Derbyniodd Llywodraeth y DU yr argymhellion, gan gynnwys edrych ar ddichonoldeb gwaharddiad cyffredinol ar ddosbarthu SSN, heb eu rheoli, i bobl eu cymryd.

Cyflwynwyd Bil Sylweddau Seicoweithredol newydd i Dŷ'r Arglwyddi ar 28 Mai 2015. Gwaharddiad cyffredinol yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig, sydd wedi ei bwriadu i ganolbwyntio ar gyflenwi, a'r bwriad polisi sylfaenol yw gwahardd a drysu gweithgynhyrchu, dosbarthu, gwerthu a chyflenwi SSN ledled y DU. Bwriedir i'r ddeddfwriaeth gwmpasu Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan fod pwerau ynghylch dosbarthu cyffuriau wedi eu dal yn ôl.

## 5.8 Ymchwiliad i Gyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd yng Nghymru

Prosiect Iechyd Cyhoeddus Cymru yw WEDINOS, sy'n darparu mecanwaith cadarn ar gyfer casglu a phrofi sylweddau seicoweithredol newydd neu anhysbys ac mae'n darparu cyngor pragmatig ar leihau niwed. Pan fydd sylweddau wedi eu hatafaelu neu eu gosod mewn blychau amnest a lle yr amheuir eu bod yn sylweddau seicoweithredol newydd, dylai'r safle fod yn ymwybodol o fanteision anfon y rhain at WEDINOS i gael eu profi - http://www.wedinos.org/index.html

Nid yw gwerthu sylweddau seicoweithredol newydd (SSN) yn cael ei reoleiddio o dan Deddf Trwyddedu 2003, ond gall awdurdodau trwyddedu ddefnyddio amodau trwyddedu (lle y ceir tystiolaeth y byddai hyn yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol) i atal gwerthu SSN ochr yn ochr â gwerthu alcohol ar safleoedd trwyddedig.[15] Bydd y Bil arfaethedig o waharddiad cyffredinol ar SSN yn ei gwneud yn bosibl torri ar werthiant sylweddau seicoweithredol newydd ar y safleoedd hyn.

[14] Uned Wybodaeth Ranbarthol Cymru, *Profile of Mephedrone and NPS Use and Supply*
[15] Arweiniad Diwygiedig a gyhoeddwyd dan adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu, 10.26-27, https://www.gov.uk/government/publications/explanatory-memorandum-revised-guidance-issued-under-s-182-of-licensing-act-2003

## 5.9 Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Comisiynwyr) yn pennu blaenoriaethau blynyddol ar gyfer pedwar Heddlu Cymru. Mae'r blaenoriaethau hyn yn gysylltiedig ag anghenion a gofynion cymunedau lleol ac maent wedi eu bwriadu i sicrhau bod adnoddau priodol yn eu lle ar gyfer blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, a dylai strategaethau economi nos lleol roi sylw dyledus i'r cynlluniau hyn. Mae pob rhanbarth wedi cyhoeddi Cynlluniau Heddlu a Throseddu cynhwysfawr a dylai rhanddeiliaid gyfeirio at y rhain wrth adeiladu strategaethau a pholisïau sy'n ymwneud ag Economi'r Nos.

Mae *Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu*[16] Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith y gall economi'r nos ei chael ar berson sydd â nodwedd warchodedig drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall hyn greu amgylchiadau lle y bydd gelyniaeth neu ragfarn yn cael eu chwyddo ac yn cael eu profi gan weithwyr a chyfranogwyr yn economi'r nos. Dylai awdurdodau lleol a rhanddeiliaid perthnasol eraill ystyried ffyrdd o sicrhau y gall amgylcheddau fod yn gynhwysol ac ystyried sut y gellir cynyddu ymwybyddiaeth a chanfod ffyrdd o adrodd am droseddau casineb.

## 5.10 Yr Amgylchedd Polisi Ehangach

Dylai awdurdodau lleol a rhanddeiliaid hefyd ystyried cyd-destun ehangach Economi'r Nos, gan gynnwys cynllunio, cludiant a'r amgylchedd (gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng a chasglu gwastraff). Pan fydd y meysydd hyn y tu allan i gylch gwaith tîm economi'r nos, dylent weithio gyda phartneriaid lleol eraill i sicrhau dull integredig o wneud canol tref yn ddiogel yn y nos a sicrhau economi nos lewyrchus. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan "y dylai polisïau annog amrywiaeth o ddefnydd mewn canolfannau. Gall defnydd hamdden fod o fudd i ganol trefi ac ardaloedd a, gyda sylw digonol i ddiogelu amwynderau, gall gyfrannu at economi lwyddiannus fin nos".[17] Dylai'r egwyddorion hyn fod yn sail i ystyried ceisiadau cynllunio ac ailddatblygu. Yn yr un modd, mae'r fframwaith yn disgrifio camau gweithredu allweddol i'w cymryd i gyfrannu at leihau trosedd a thrais, cefnogi cyfleusterau cludiant gyda'r nos ac yn hwyr y nos, ac amgylchedd dymunol ar gyfer holl ddefnyddwyr economi'r nos.

## 5.11 Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl

Mae Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl i gael ei gyhoeddi ar y cyd gan bartneriaid – Iechyd, yr Heddlu, yr Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector – gyda'r bwriad o wella'r ffordd yr ymdrinnir ag unigolion sy'n ymgyflwyno ag argyfwng iechyd meddwl. Yn aml gall argyfwng o'r fath fod yn ganlyniad neu gael ei gymhlethu gan alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon neu'r ddau. Pan fydd person yn feddw iawn, mae ei allu personol yn llai a gall golli awdurdod a rheolaeth bersonol. Efallai y bydd hyn yn arwain at yr angen i'r heddlu ddefnyddio pwerau dan ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl i gadw unigolyn mewn lle diogel, priodol, sef gorsaf yr heddlu yn aml. Os bydd y person yn drwm dan ddylanwad alcohol, lle diogel mewn ysbyty sy'n debyg o fod yr amgylchedd mwyaf addas, yn absenoldeb cyfleuster arall.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod defnyddio ddeddfwriaeth iechyd meddwl i ymyrryd yn yr hyn sydd yn y bôn yn achosion camddefnyddio sylweddau yn gostus ac yn aml nid yw'n sicrhau canlyniad priodol. Mae'n aml yn wir nad yw person, sy'n berygl difrifol iddo'i hun neu i eraill pan fydd yn drwm dan ddylanwad alcohol, yn dioddef o salwch meddwl. Felly, o ran gofynion triniaeth benodol, nid oes angen ymyriad iechyd. Drwy gysylltu'r arweiniad hwn ag uchelgais y Concordat Iechyd Meddwl, mae yma gyfle yn cyflwyno'i hun i bartneriaid ystyried dulliau

[16] *Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu* (http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=en)
[17] Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7, Gorffennaf 2014, 10.2.4

gwahanol o ymdrin â phobl sydd wedi meddwi'n drwm pan fyddant yn cael eu harestio ac yn cael eu dal gan yr heddlu.

## 6. Hunanreoleiddio'r Diwydiant ac arfer gorau

Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r diwydiant alcohol ddangos sut y gall gymryd camau i leihau niwed cysylltiedig ag alcohol. Mae Bargen Cyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus (Gorffennaf 2014) yn nodi'r ymrwymiadau a wnaed gan y diwydiant alcohol i leihau niwed, ac mae nifer ohonynt yn ymwneud ag Economi'r Nos:

- Ymrwymiad i gefnogi LAAAs drwy ehangu cynlluniau partneriaeth y diwydiant;
- Camau gweithredu i wneud cynhyrchion wedi eu carboneiddio, cyfaint uchel, cryf iawn, sy'n gysylltiedig i raddau anghymesur â niwed, yn llai deniadol. Bydd llofnodwyr yn ymrwymo i beidio â chynhyrchu na gwerthu unrhyw gynnyrch gyda mwy na 4 uned o alcohol mewn can unigol mwyach. Bydd hyn yn golygu na chaiff cwrw eithriadol o gryf (9% ABV ac uwch) ei werthu bellach mewn caniau 500ml.
- Bydd Grŵp Safonau Manwerthu Alcohol yn cyhoeddi arweiniad newydd ar gyfer ei aelodau i bennu safon ar gyfer manwerthu alcohol yn gyfrifol. Bydd hyn yn cynnwys hybu alcohol ac arwyddion a gwybodaeth am alcohol yn y siop. Byddai Llywodraeth y DU hefyd yn hoffi gweld mwy o gytundebau gwirfoddol i gyfyngu arddangosfeydd o alcohol mewn siopau i un rhan.
- Bydd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain a'i haelodau yn lleihau nifer yr unedau a werthir yn yr ar-fasnach drwy gynnig gwin y tŷ o dan 12.5% ABV a mynd ati i hybu cynhyrchion sy'n is mewn alcohol mewn bariau a thafarndai.
- Bydd SAB Miller hefyd yn ariannu 10,000 o bobl i gyflawni cymhwyster Sefydliad Rhedeg Tafarndai Prydain ar fanwerthu alcohol yn gyfrifol, gan ganolbwyntio ar yfed o dan oed a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Sefydlwyd **Rhwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru (WGAIN)** ym mis Ionawr i gefnogi mân-werthwyr diodydd yng Nghymru i wneud eu rhan i helpu'r diwydiant alcohol i gyflawni addunedau'r Fargen Cyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus newydd.

Mae **Cod Grŵp Portman** yn gosod y safon ar gyfer marchnata alcohol yn gyfrifol ac yn annog mân-werthwyr i hybu diodydd isel mewn alcohol ac is mewn alcohol, yn ogystal â sicrhau bod honiadau marchnata yn addas. Mae'n cyhoeddi rhybuddion ynglŷn â chynnyrch sy'n torri'r cod, ac efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno cael gwybod am y rhain ac annog safleoedd i wneud yr un fath.

Efallai y bydd ardaloedd lleol hefyd yn dymuno ystyried ymuno â chynlluniau partneriaeth arfer gorau y diwydiant, neu gall y rhain fod yn fodel ar gyfer gweithredu pellach. Mae'r cynlluniau a awgrymir yn cynnwys:

**Baner Borffor –** Mae achrediad statws Baner Borffor yn cydnabod canol trefi sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safonau rhagoriaeth wrth reoli economi gyda'r nos ac Economi'r Nos. Mae hyn yn cynnwys cael strategaeth leol gref a chydgysylltiedig, amgylchedd glân a diogel, rhwyddineb symud a chyrchfan symbylol gyda dewis eang o adloniant a gweithgareddau. Gall arwain at godi proffil a sicrhau delwedd gyhoeddus well i'r lleoliad, yn ogystal â llai o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac economi fwy cymysg a llwyddiannus yn y tymor hir.

**Best Bar None –** Mae'r cynllun hwn yn rhedeg ar hyn o bryd mewn dros 100 o drefi a dinasoedd yn y DU. Mae ardaloedd yn ymuno â'r cynllun hwn sy'n cael ei gyflawni'n lleol gan bartneriaethau gweithredol rhwng y diwydiant, awdurdodau lleol a'r heddlu. Rhaid i ganolfannau gyrraedd safonau gofynnol i gael eu hachredu gan y cynllun a chystadlu i ennill

gwobrau. Caiff gweithredwyr cyfrifol eu cydnabod a gallant rannu arfer da gydag eraill. Gall cynllun hefyd amlygu sut y gall gweithredu'n fwy cyfrifol wneud busnes unigol yn fwy proffidiol a gwneud yr ardal yn fwy deniadol yn gyffredinol.

**Pubwatch –** Rhwydwaith o safleoedd, a drefnwyd gan y trwyddedigion, sy'n gwella cyfathrebu rhyngddynt a'r heddlu ac sy'n eu galluogi i gyfleu negeseuon am broblemau posibl yn gyflym, gan ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Lleihau Cryfder -** Cynlluniau lleol sydd wedi'u targedu'n benodol at yfwyr stryd, lle mae gwerthwyr yn yr all-fasnach yn cytuno (ar sail wirfoddol) i beidio â gwerthu cwrw a seidr cryf iawn, isel ei bris. Pan geir hyn ochr yn ochr â gwaith yr heddlu yn lleihau aflonyddwch ar y stryd, ynghyd â gweithwyr allgymorth i annog yfwyr stryd i gael triniaeth, gall y cynllun hwn fod yn effeithiol iawn. Yn Ipswich, fe wnaeth dwy ran o dair o'r safleoedd ymrwymo, ac fe gwympodd nifer yr achosion yr adroddwyd wrth yr heddlu amdanynt, oedd yn ymwneud ag yfed yn y stryd, o bron i 25% dros y flwyddyn. Mae angen i'r cynllun hwn fod wedi ei gynllunio'n dda a bod yn seiliedig ar dystiolaeth – mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) wedi cynhyrchu arweiniad.[18]

**Her 25 -** Er bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ddilysu oedran pobl ifanc sy'n ymddangos i fod dan 18, mae cynlluniau arfer gorau y diwydiant yn mynnu bod gweinyddwyr yn gofyn am ddilysiad oedran gan rai sy'n ymddangos yn hŷn. Defnyddir Her 25 amlaf gan archfarchnadoedd a rhai rhannau eraill o'r all-fasnach; defnyddir Her 21 yn bennaf gan yr ar-fasnach. Mae prawf-brynu yn awgrymu bod y cynlluniau hyn wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth, ac roedd cyfradd pasio'r all-fasnach yn 79% o gymharu â 69% ar gyfer yr ar-fasnach yn 2011.[19] Canfu Adran Iechyd y DU fod niferoedd y bobl ifanc 11-15 mlwydd oed oedd wedi yfed yn yr wythnos ddiwethaf wedi gostwng o 23% yn 2006 i 10% yn 2013, gyda'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn digwydd ar ôl cyflwyno Her 25. Mae'r grŵp oedran 16-24 hefyd wedi gweld gostyngiad o 24% mewn yfed alcohol dros y cyfnod hwn.[20]

Mae Her 25 bellach yn orfodol ar gyfer yr holl drwyddedigion yn yr Alban, yn dilyn gwelliannau i'r deddfau trwyddedu presennol yn 2011. Mae hyn yn golygu bod angen cymhwyso Her 25 yn gyffredinol yn yr ar-fasnach a'r all-fasnach. Mae cydnabyddiaeth a phrofiad o'r cynllun yn gymharol isel yng Nghymru, er bod cefnogaeth yn uchel. Efallai felly y bydd awdurdodau trwyddedu yn dymuno hyrwyddo Her 25 drwy eu datganiadau polisi trwyddedu ac fel amodau ar y trwyddedau y byddant yn eu rhoi.

---

[18] CLlL, Lleihau cryfder: Canllawiau ar gyfer cynghorau sy'n ystyried sefydlu cynllun http://www.local.gov.uk/web/guest/publications/-/journal_content/56/10180/6823763/PUBLICATION

[19] Adroddiad '*Checked Out'* gan Serve Legal, 2012

[20] Grŵp Safonau Manwerthu Alcohol, *'Rising to the Challenge, - a report into the application and impact of Challenge 25'*.

## Rhan Dau

## Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru

Diben y ddogfen hon yw darparu fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, timau economi'r nos, arweinwyr diogelwch cymunedol a rhanddeiliaid eraill i'w cynorthwyo wrth ddatblygu a chyflawni cynlluniau a strategaethau lleol i fynd i'r afael ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol yn ein trefi a'n dinasoedd, a gwella mynediad at Economi'r Nos i boblogaeth ehangach.

**Nod: Darparu cyfleusterau priodol i holl ddefnyddwyr canol dinasoedd a threfi**

| **Amcan 1:Creu canol tref amrywiol sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb** | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
| **Lleoliadau a gweithgareddau**<br>Dylai awdurdodau lleol ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o leoliadau a gweithgareddau yng nghanol trefi a dinasoedd fydd yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion a diddordebau.<br><br>Dylid ystyried  cynnal "archwiliad amrywiaeth" a chynnwys arfarniad o ganol y dref fel cyrchfan ac ymchwil hefyd i ganfyddiadau a dyheadau defnyddwyr. O hyn dylid datblygu gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer canol tref cynhwysol a mwy amrywiol. | Cynnwys mesurau ym mholisïau a/neu gynlluniau datblygiad economaidd, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol yr awdurdod lleol i helpu i ddod ag amrywiaeth i economi'r nos. | Mae '*Better Town Centres at Night'* yn canolbwyntio ar Economi Nos gwell yn gyffredinol – gan gynnwys defnyddio cynllunio i annog cymysgedd o safleoedd (tud. 52).<br>https://www.atcm.org/purple-flag-files2/purple-flag-files/files/20-Better_Town_Centres_At_Nght<br><br>Mae Caerdydd wedi defnyddio swydd Cydgysylltydd Economi'r Nos fel rôl strategol i hyrwyddo amrywiaeth, ymysg amcanion eraill. Ceir gwerthusiad o'r rôl hon yn:<br>http://www.cardiff.ac.uk/socsi/research/publications/workingpapers/paper-133.html<br><br>Er enghraifft, bydd meithrin 'economi gyda'r nos' sy'n annog cymysgedd ddemograffig ehangach o ddefnyddwyr (gan gynnwys teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio yn ystod y dydd) i ymweld â thai bwyta, siopau manwerthu, orielau, amgueddfeydd a chaffis yn ogystal â safleoedd trwyddedig, yn hybu Economi Nos fwy cymysg. Gall safleoedd trwyddedig wedyn gystadlu am y busnes hwn, gan newid eu model |

| | | |
|---|---|---|
| | | busnes oddi wrth ddibyniaeth ar werthu cyfaint uchel o alcohol. |
| **Amcan 2: Darparu'r isadeiledd sy'n gymorth i wneud canol dinasoedd a threfi yn amgylchedd croesawgar yn y nos** | | |
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
| **Cludiant**<br>Er mwyn datblygu darpariaeth briodol a digonol i ac o leoliadau economi'r nos, dylid ystyried manteision posibl y canlynol:-<br>• gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd hwyr y nos;<br>• parcio diogel yn hwyr y nos;<br>• parthau cerddwyr dros dro;<br>• darparwyr y diwydiant gwasanaethau a hamdden i drafod gyda darparwyr cludiant er mwyn ystyried a mynd i'r afael â materion ac anghenion lleol, gan gynnwys marchnata gwybodaeth ac amserlenni; a<br>• defnyddio technoleg, e.e. ceisiadau ffôn symudol am wybodaeth fyw ynghylch cludiant<br><br>Er mwyn gwella diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r cludiant yn hwyr y nos, dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:-<br>• Darparu Marsialiaid Tacsi<br>• Defnyddio staff drws presennol i oruchwylio ciwiau tacsi yn hwyr y nos<br>• Lleoli safleoedd tacsis ar gyfer nifer o leoliadau hwyr y nos | Dylid defnyddio gwybodaeth am weithgareddau'r economi gyda'r nos ac economi'r nos (y gellid ei chasglu o strategaethau neu gynlluniau Economi'r Nos lleol) ar gyfer cynllunio polisïau cludiant lleol | Mae dull effeithlon, cyflym i bobl gyrraedd adref yn y nos yn allweddol i reolaeth dda ac atal anhrefn yn hwyr y nos. Gall cludiant gwell hefyd annog mwy o gymysgedd o bobl i ymweld â chanol trefi yn y nos.<br><br>Defnyddiwyd Marsialiaid Tacsi yn effeithiol yng nghanol nifer o ddinasoedd lle y gallant atal neidio o fewn ciw ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall sydd â photensial i ysgogi anhrefn, yn ogystal â sicrhau mai tacsis trwyddedig yn unig sy'n defnyddio'r safle. Mae angen i Farsialiaid allu cyfathrebu gyda'r heddlu ac eraill sy'n bresennol mewn lifrai. |
| **Glanhau**<br>Dylai canol tref croesawgar yn y nos fod yn lân, yn braf ac wedi'i oleuo'n dda. Dylai strategaethau gynnwys darpariaeth ar gyfer:-<br>• Cyfleusterau glanhau a sbwriel digonol. | Dylai polisïau a strategaethau amgylcheddol Awdurdod Lleol / Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) (e.e. | Mae Deddf Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn ehangu adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ystyried ymddygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd.<br><br>Dylid annog masnachwyr i weithio gydag awdurdodau lleol i leihau lefelau sbwriel. Mewn rhai ardaloedd, mae masnachwyr |

| | | |
|---|---|---|
| • Darpariaeth toiledau cyhoeddus<br>• Dileu graffiti<br>• Atal hysbysebion anghyfreithlon a rheoli deunydd gwastraff o safleoedd tref.<br><br>Mae angen integreiddio polisïau glanhau gyda pholisïau rheoli canol tref er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fel y gall gwasanaethau glanhau strydoedd ddiwallu anghenion economi’r nos drwy lanhau strydoedd ar adegau mwy priodol.<br><br>**Goleuadau a thoiledau**<br>Mae goleuadau stryd da yn cynyddu diogelwch ac yn anogaeth i grŵp ehangach o bobl ddefnyddio canol y dref yn ystod y nos. Mae'r argymhellion yn cynnwys:<br><br>• Mabwysiadu’r lefelau goleuo gofynnol a argymhellir.<br>• Ystyried defnyddio mathau gwahanol o oleuni (e.e. sodiwm, halid metel, ac ati) sy'n briodol i’r lleoliad a’r amser;<br>• Adolygu goleuadau mewn perthynas â systemau teledu cylch cyfyng ac argymhellion neu ofynion a wnaed gan gynllunio a thrwyddedu;<br>• Sicrhau bod goleuadau ar lwybrau cerdded cydnabyddedig.<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth i:-<br><br>• agor cyfleusterau cyhoeddus yn hirach<br>• defnyddio gweinyddwyr toiledau<br>• darparu toiledau dros dro pan fo angen.<br>• dewisiadau gwahanol i A & E ar gyfer y rheiny sydd wedi meddwi lle nad oes angen presenoldeb yr heddlu | mentrau golygfa'r stryd) gynnwys cyfeiriad at economi'r nos. | wedi darparu cyllid ar gyfer glanhau stryd a darparu biniau ychwanegol.<br><br>Yng Ngheredigion, defnyddiwyd gwybodaeth a gedwir am ollwng sbwriel i gynnwys amodau ar glirio sbwriel wrth roi trwyddedau i siopau bwyd cyflym (Gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd: mynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio alcohol (Cyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru, Hydref 2006)).<br><br>Mae gosod hysbysebion heb ganiatâd yn anghyfreithlon (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992) – gellir dirwyo y rheiny sy’n gosod y posteri a'r rhai sy’n elwa oddi wrthynt. Gall cael gwared ar bosteri yn gyflym a defnyddio Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) yn erbyn troseddwyr cyson hefyd fod yn effeithiol.<br><br>"Effeithiau gwella goleuadau stryd ar droseddu"<br>www.communitysafety.gov.uk/securedesign/securedesign20<br><br>Mae'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth doiledau lleol. Nod y darpariaethau yw gwella cynllunio darpariaeth toiledau sydd ar gael i’r cyhoedd eu defnyddio drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion y gymuned o ran toiledau, ac wedyn yn mabwysiadu dull strategol a thryloyw o fodloni’r angen yn y ffordd orau. |

| Amcan 3: Datblygu ymateb hyblyg i ddarparu gwasanaeth brys | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
| **Darparu Gwasanaethau Brys**<br><br>Dylid ystyried y canlynol:-<br><br>• Ymgysylltu â gwasanaethau brys i gynnal asesiadau rheolaidd o'r gwasanaethau a ddarperir yn ardaloedd Economi'r Nos.<br>• Darpariaeth bwrpasol ar gyfer achlysuron penodol megis brysbennu darpariaeth ar gyfer digwyddiadau tymhorol a mawr.<br>• Darparu pwyntiau cymorth ar gyfer digwyddiadau mawr ac ar wyliau cyhoeddus.<br>• Hyfforddiant mewn cymorth cyntaf ar gyfer personél a achredwyd<br>• Darparu / defnyddio cymhorthion adfywio<br>• Sicrhau bod gwasanaethau brys achrededig eraill megis Wardeiniaid Cymunedol neu Ambiwlans Sant Ioan ar gael.<br><br>Dylai fod systemau i sicrhau y gall cyswllt â gwasanaethau brys arwain at atgyfeirio i wasanaethau rheolaidd lle bo angen. | Ymgysylltu/trafod gyda'r gwasanaethau brys pa ymateb a phresenoldeb sy'n briodol, - yr Heddlu, Ambiwlans ac Adran Achosion Brys | Mae Cyngor Sir Benfro wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer digwyddiadau dros dro. Gellir dod o hyd i hwn yn: http://www.Pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=107, 110,178, 187 & parent_directory_id = 646 & id = 9793<br><br>Ers mis Medi 2012, mae nifer o Ganolfannau Triniaeth Alcohol wedi codi i ddarparu man diogel yng nghanol y ddinas yn y nos pan fydd pobl yn feddw. Maent yn gweithredu fel canolfan feddygol ar gyfer asesu a thrin mân anafiadau, lle y gellir rhoi hylifau mewnwythiennol ac y caniateir i bobl gysgu drwy effeithiau yfed gormod o alcohol mewn amgylchedd diogel. Darperir therapi ymyriad byr hefyd, sy'n herio ymddygiad unigolion pan fyddant wedi sobri.<br><br>**Heddlu Gogledd Cymru**<br>Hafan Wen yn Wrecsam yw'r prif ganolfan ar gyfer triniaeth am alcohol yn y Gogledd. Caiff ei rhedeg gan CAIS a gallwch weld y manylion yn http://www.cais.co.uk/<br><br>**Heddlu De Cymru**<br>Mae **Man Cymorth** yng nghanol dinas Abertawe yn dangos y defnydd gwell sy'n cael ei wneud o adnoddau partneriaeth drwy ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer pobl yng nghanol dinas Abertawe sy'n feddw ac sydd angen mesurau i'w helpu i wella a/neu triniaeth am anafiadau. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn http://commissioner.south-wales.police.uk/cy/cyngor-a-gwybodaeth/2039-2/man-cymorth/ |

| | | |
|---|---|---|
| Rhaid sicrhau diogelwch staff gwasanaethau brys ac eraill, a dylai Adrannau Achosion Brys ystyried mesurau i gynnal diogelwch, e.e. drwy ddefnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig.<br><br>Partneriaid i ystyried dulliau eraill o ymdrin â’r rheiny sy’n drwm dan ddylanwad alcohol pan gânt eu harestio a’u cadw gan yr heddlu megis y Concordat Iechyd Meddwl - Argyfwng mewn Gofal. | | Yng Nghaerdydd, mae’r ganolfan triniaeth am alcohol yn un dan arweiniad nyrsys ac mae’n ceisio lleihau effaith problemau sy’n gysylltiedig ag alcohol mewn unedau brys. Mae’r bartneriaeth yn cynnwys y GIG, awdurdodau lleol, yr ambiwlans, y gwasanaeth prawf, yr heddlu, gweinidogion stryd y trydydd sector, Ambiwlans Sant Ioan, asiantaethau triniaeth, Esgobaeth yr Eglwys Gatholig a chyfraniadau gan y sector preifat. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: http://cardiffandvaleapb.org/project/act-alcohol-treatement-centre/<br><br>Pan ddefnyddir ysbytai maes gellir defnyddio Prawf Alcohol Paddington un munud. Dyluniwyd hwn gan Ysbyty St Mary yn Paddington ac mae’n golygu ateb ychydig o gwestiynau sy'n gallu dirnad dibyniaeth beryglus, niweidiol ac ysgafn. Mae angen cydsyniad a dylid defnyddio'r wybodaeth ar gyfer atgyfeirio at dimau cyffuriau ac alcohol lleol.<br><br>Efallai y bydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru hefyd yn darparu data ar fannau codi ar gyfer rhai dan oed sy’n dioddef canlyniadau camddefnyddio sylweddau er mwyn nodi mannau poeth ar gyfer gweithredu amlasiantaethol.<br><br>**<u>Heddlu Gwent</u>**<br><br>Pan gafodd y ddogfen hon ei drafftio, nid oedd gan Heddlu Gwent unrhyw ganolfannau ar gyfer triniaeth am alcohol yn ei ardal, ond roedd yn edrych ar bosibiliadau, yn amodol ar gyllid.<br><br>Caiff unrhyw waith ataliol ei wneud gan Swyddogion penodol yr Heddlu ar gyfer Economi’r Nos, sy’n treulio amser gyda staff ar y drysau tra eu bod ar batrôl yn anffurfiol, yn rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai partneriaid ystyried hyfforddiant ar fod yn agored i niwed, sy'n ymwneud ag ymyrraeth gynnar a achosir drwy alcohol a chyffuriau. | | gwybodaeth iddynt am faterion cyfredol.<br><br>**<u>Heddlu Dyfed-Powys</u>**<br><br>Pan gafodd y ddogfen hon ei drafftio, nid oedd gan Heddlu Dyfed-Powys unrhyw ganolfannau ar gyfer triniaeth am alcohol yn ei ardal, ond mae ganddynt Weinidogion Stryd a phrosiectau cymunedol llai.<br><br>Canllawiau Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl - pan gaiff ei gyhoeddi.<br><br><u>Hyfforddiant ar fod yn Agored i Niwed</u><br>Gall alcohol gyfrannu at drais rhywiol, drwy wneud pobl na fyddai'n agored i niwed gan amlaf, yn agored i niwed. Gall economi'r nos fod yn gyfle i bobl fanteisio'n rhywiol ar eraill oherwydd bod y rheini yn fwy agored i niwed yn sgil alcohol a chyffuriau. I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant ar fod yn agored i niwed, ewch i:<br>http://commissioner.south-wales.police.uk/cy/cyngor-a-gwybodaeth/2039-2/hyfforddiant-ar-fod-yn-agored-i-niwed/ |

**<u>Nod: Creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn y nos</u>**

| **Amcan 1: Defnyddio pwerau trwyddedu a deddfwriaethol yn effeithiol i sicrhau diogelwch mewn ardaloedd sy'n 'broblem'** | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
| **Trwyddedu**<br><br>Dylai strategaeth drwyddedu gyffredinol gymryd i ystyriaeth y nifer a'r math priodol o safle trwyddedig yng nghanol y dref. Mae nifer o ddewisiadau ar gael i fynd i'r afael â 'mannau poeth' i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd:<br><br>• Parthau gwahardd alcohol – i atal yfed alcohol yn | Dylai datganiad o'r polisi trwyddedu nodi'r strategaeth ar gyfer ystyried ceisiadau am drwydded, sy'n cymryd yr ardal leol i ystyriaeth a'r holl bwerau deddfwriaethol sydd ar | Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod trwyddedu baratoi a chyhoeddi datganiad o'i bolisi trwyddedu bob pum mlynedd o leiaf. Mae Pennod 13 o'r Canllaw Diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf yn rhoi arweiniad ynglŷn â datblygu'r polisi hwn, yr egwyddorion sylfaenol a'r cynnwys craidd, gan gynnwys PEG ac EMRO.<br>https://www.gov.uk/government/publications/Explanatory- |

| | | |
|---|---|---|
| gyhoeddus<br>• Ardoll hwyr y nos (LNL) – i godi cyfraniad at y gost o blismona Economi'r Nos<br>• EMRO – i atal gwerthu alcohol mewn man penodol rhwng 12 hanner nos a 6 o'r gloch y bore<br>• Amseroedd cau sefydlog/gwahanol a chreu parthau<br>• PEG – i leihau dwysedd y safleoedd trwyddedig (gan gynnwys siopau prydau cyflym yn hwyr y nos os oes angen)<br>• Mannau diogelwch<br><br>Gall cyrff perthnasol hefyd gymryd camau yn erbyn safleoedd neilltuol sy'n broblem, gan gynnwys gofyn am adolygiad o'r drwydded, neu gau am 24 awr mewn argyfwng. | gael. | Memorandum-Revised-Guidance-issued-under-s-182-of-licensing-Act-2003<br><br>Gellir defnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (rhan o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014) i ddynodi rhai gweithgareddau, gan gynnwys yfed alcohol, yn anghyfreithlon mewn rhai ardaloedd, lle mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith andwyol ar y gymuned leol.<br>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/332839/StatutoryGuidanceFrontline.pdf<br><br>Ceir canllawiau manwl ar weithredu LNL, gan gynnwys y defnydd o refeniw, yn:<br>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118369/Late-Night-Levy-guidance.pdf |
| Dylai awdurdodau trwyddedu sefydlu a nodi protocolau gorfodi ar y cyd gyda'r heddlu lleol i sicrhau bod safleoedd yn glynu at y gyfraith, gan gynnwys darpariaethau Deddf Trwyddedu 2003, Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol)(Diwygio) 2014.<br><br>Dylai'r awdurdodau trwyddedu ystyried gorfodi'r gyfraith yn erbyn gweini alcohol i bobl feddw, er enghraifft drwy brawf-brynu.<br><br>Mae yna nifer o fesurau diogelwch y gellir eu hannog a/neu eu gwneud yn rhan o'r amodau trwyddedu:<br><br>• Defnyddio gwydrau a photeli plastig – e.e. ar nosweithiau penodol o'r wythnos, neu ar ddiwrnodau gemau<br>• Cydymffurfio â Bwletinau Rhybuddio Grŵp Portman i | Strategaeth i orfodi amodau trwyddedu a deddfwriaeth a sicrhau bod safleoedd yn cymryd camau i amddiffyn eu cwsmeriaid | Mae'r canllawiau ar Amodau Trwyddedu Mandadol yn nodi'r pum amod a ddaeth i fod drwy Orchymyn 2014:<br>https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-Mandatory-Licensing-conditions<br><br>Ceir arweiniad ynglŷn â gwahardd gwerthu alcohol am bris is na chost yr ardoll ynghyd â TAW yn<br>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/311735/Guidance_on_BBCS_3.pdf<br><br>Mae adran 141 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn drosedd gwerthu alcohol i berson sy'n feddw, neu i ganiatáu gwerthu alcohol i berson o'r fath ar safleoedd trwyddedig.<br><br>Mae Pennod 10 y Canllaw Diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf yn rhoi arweiniad ynglŷn â gosod amodau ar drwyddedau.<br>https://www.gov.uk/government/publications/Explanatory- |

| | | |
|---|---|---|
| Fân-werthwyr i dynnu cynhyrchion neu hysbysebion yn ôl os ydynt yn torri cod y diwydiant<br>• Cyfyngiadau capasiti a chymarebau seddau i'r capasiti<br>• Polisïau i atal gorlenwi mewn rhai mannau<br>• Presenoldeb staff drws (wedi eu trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA)) gyda gweithdrefnau ar gyfer gwrthod mynediad, chwilio, gwasgaru<br>• Strategaeth ar gyfer atal a delio ag anhrefn, lladrad, tân, ac ati<br>• Polisi sŵn a chynllun gwasgaru<br>• Defnyddio gweinyddwyr toiledau, staff diogelwch a theledu cylch cyfyng lle bo'n briodol<br><br>Ystyried arolygiadau proffil uchel ar y cyd rhwng awdurdodau trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd, y Gwasanaeth Tân, Safonau Masnach i wirio goruchwylwyr drws, iechyd a diogelwch, atal tân, rheoli niwsans sŵn a chydymffurfio ag amodau trwyddedu. | | Memorandum-Revised-Guidance-issued-under-s-182-of-licensing-Act-2003<br><br>Dylid nodi y dylai amodau fod yn gymesur ac yn briodol i hyrwyddo amcanion trwyddedu.<br><br>Gellir defnyddio deddfau Iechyd a Diogelwch a deddfau'r Amgylchedd hefyd i orfodi cyfyngiadau ar gapasiti, defnyddio a chael gwared ar wydr, ac ati. |
| **Dilysu oedran**<br><br>Rhaid i safleoedd gael polisi dilysu oedran, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion, sy'n ymddangos o dan 18 oed, ddangos tystiolaeth o'u hoedran o leiaf. Gellir defnyddio prawf-brynu i weld a yw safleoedd yn cydymffurfio. Dylid defnyddio sancsiynau mwy (dirwyon mwy neu rybuddion cau estynedig) yn erbyn safleoedd sy'n gwerthu alcohol i bobl ifanc o dan 18 oed yn gyson.<br><br>Dylai'r awdurdodau cyfrifol hefyd sicrhau bod gwasanaethau sy'n danfon i'r cartref yn cadw at Ddeddf Trwyddedu 2003, er enghraifft, drwy ddefnyddio prawf-brynu.<br><br>Gellir annog defnyddio cynlluniau arfer gorau (Her 25) drwy | Strategaethau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed | Mae'r *Canllaw ar Amodau Trwyddedu Gorfodol*, Medi 2014, yn rhoi'r rheolau ynglŷn â dilysu oedran, mathau derbyniol o ID a pholisi enghreifftiol: https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-Mandatory-Licensing-conditions<br><br>Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn diwygio Deddf Trwyddedu 2003:<br><br>- Mae adran 147a yn dyblu'r ddirwy ar gyfer troseddwyr cyson<br>- Mae adran 169a yn diwygio'r pwerau i roi rhybudd cau i'r rhai sy'n gwerthu alcohol yn gyson i blant<br><br>Ceir arweiniad manwl yn |

| | | |
|---|---|---|
| amodau trwyddedu.<br><br>Gall yr heddlu ddefnyddio pwerau i atafaelu alcohol oddi ar bobl ifanc dan 18 oed mewn mannau cyhoeddus; ac erlyn troseddwyr cyson.<br><br>Mae cysylltiad cryf rhwng y defnydd o SSN a phobl ifanc (o dan 18 oed a 18-24 hefyd). | | https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/98110/selling-alcohol-to-Children.pdf<br><br>Ceir mwy o wybodaeth am Her 25 yn yr Alban yn http://www.challenge25.org/ ac ar gyfer y diwydiant- www.wsta.co.uk/Challenge-25<br><br>Mae Adran 1 o Ddeddf Atafaelu Alcohol (Personau Ifanc) 1997 yn galluogi'r heddlu i atafaelu alcohol; mae adran 30 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 yn creu'r drosedd o feddu ar alcohol yn gyson mewn man cyhoeddus pan o dan 18 oed.<br><br>Dylai arolygiadau safle sicrhau bod gweithdrefnau digonol yn eu lle i ddarbwyllo i beidio â defnyddio Sylweddau Seicoweithredol Newydd ac i leihau'r niwed. |
| **Amcan 2: Defnyddio'r pwerau gorfodi sydd ar gael yn effeithiol i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn** | | |
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
| **Gorfodi**<br>Mae timau economi'r nos yn rhannu gwybodaeth gyda'r Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol er mwyn eu galluogi i ystyried pa mor weladwy y dylent fod mewn ardaloedd sy'n 'broblem'. Lle mae unigolion yn achosi problemau, mae gan yr heddlu amryw o bwerau sydd ar gael iddynt gan gynnwys:<br><br>• Gorchmynion ymddygiad troseddol (yn disodli Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)<br>• Pŵer gwasgaru – i symud pobl ymlaen ac atafaelu alcohol<br>• Hysbysiadau diogelu cymunedol – ar gyfer y rheiny | Cydgysylltu gweithgareddau atal troseddu a gorfodi yn y nos | Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 - ceir dogfennau polisi, taflenni gwybodaeth a chanllawiau yn https://www.gov.uk/government/publications/Anti-social-Behaviour-Crime-and-Policing-Bill-Anti-social-Behaviour |

| | | |
|---|---|---|
| sy'n gollwng sbwriel yn gyson neu'n tarfu ar gymunedau pan fyddant wedi meddwi<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth i:<br><br>• Gydlynu CCTV, radionet, cynllun rhybudd o waharddiad, rhannu data a lluniau ar droseddwyr sy'n hysbys ac ati<br>• Darparu teledu cylch cyfyng sefydlog mewn lleoliadau strategol, gyda systemau symudol i ymateb i unrhyw ddadleoli troseddu a achosir gan systemau sefydlog.<br>• Prosesau a gweithdrefnau cydnabyddedig a chymeradwy i fusnes ac asiantaethau cyhoeddus reoli delweddau CCTV<br><br>Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried dulliau ysgafnach o atal anhrefn a niwed i unigolion. Er enghraifft, dylai safleoedd hyfforddi staff drws i edrych allan am unigolion sydd yn feddw ac ar eu pen eu hunain. Ystyried defnyddio sefydliadau'r sector gwirfoddol i amddiffyn unigolion, e.e. Bugeiliaid y Stryd.<br><br>Dylai awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol eraill ymroi i ystyried ffyrdd o greu amgylchedd diogel a chynhwysol ar gyfer pawb sydd â nodwedd warchodedig. Dylai staff drws a gweithwyr proffesiynol eraill fod yn ymwybodol o brotocolau ar gyfer ymateb i, ac adrodd am, droseddau a digwyddiadau casineb, gan gynnwys drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Adrodd am Droseddau Casineb a derbyn Cymorth sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gymorth i Ddioddefwyr Cymru. | | Lle bo'n briodol, dylai CCTV ganolbwyntio ar fannau lle mae grwpiau mawr o bobl yn ymgynnull, megis safleoedd tacsis, gorsafoedd bysiau/trenau a mannau gwerthu bwyd sydyn. Dylai teledu cylch cyfyng ar y prif lwybrau allan o ganol y dref hefyd fod yn ystyriaeth. Ceir y polisi diweddaraf ar y defnydd o deledu cylch cyfyng yn https://www.gov.uk/government/publications/Surveillance-camera-Code-of-Practice<br><br>Ceir mwy o wybodaeth am fugeiliaid y stryd ar http://www.streetpastors.org/<br><br>Fe wnaeth Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 greu nifer o droseddau newydd gydag elfen hiliol neu grefyddol, a chyflwynodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddedfrydau llymach ar gyfer troseddau a ysgogwyd gan gasineb tuag at gyfeiriadedd rhywiol y dioddefwr. Mae Canolfan Genedlaethol ar gyfer Adrodd am Droseddau Casineb a derbyn Cymorth yn cael ei ariannu drwy Gymorth i Ddioddefwyr Cymru er mwyn cynyddu lefelau adrodd a chyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ledled Cymru (http://www.reporthate.victimsupport.org.uk/hate-crime/ ). |
| **Amcan 3: Annog hunanreoleiddio a defnydd lleol o gynlluniau'r diwydiant i wella diogelwch** | | |
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai rhanddeiliaid allweddol ystyried a gweithredu cynlluniau priodol ar gyfer anghenion lleol. Os bydd safleoedd yn cymryd rhan yn y cynlluniau hyn gallant sicrhau safonau uchel o ran diogelwch.<br><br>• Baner Borffor – dangos rhagoriaeth yn economi'r nos yn ei chyfanrwydd<br>• Best Bar None – cydweithredu rhwng y diwydiant, awdurdodau lleol a'r heddlu i gydnabod lleoliadau cyfrifol<br>• Pubwatch – a drefnwyd gan drwyddedigion i hwyluso cyfathrebu<br>• Mae rhai ardaloedd lleol hefyd wedi cyflwyno cynlluniau gwirfoddol i leihau cryfder yr alcohol sy'n cael ei werthu, yn enwedig yn yr all-fasnach<br><br>Dylid annog safleoedd i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn, naill ai drwy amodau trwyddedu, neu drwy wobrwyo e.e. gostyngiad o 30% yn y LNL.<br><br>Mae rhai cynlluniau yn targedu'r yfwyr sy'n broblem/yfwyr y stryd yn benodol. Gall lleihau cryfder fod yn ddull effeithiol, pan fydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â mesurau eraill, gan gynnwys pwerau gorfodi'r heddlu ynghyd â gweithwyr allgymorth i annog triniaeth, o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol i'r unigolion yn ogystal â digwyddiadau sy'n effeithio ar y cyhoedd yn gyffredinol. Os mai'r cynllun hwn yw'r dull gorau, dylai fod wedi'i gynllunio ar gyfer yr amgylchiadau lleol penodol a'i gyflwyno mewn partneriaeth â safleoedd lleol (er y gellir defnyddio amodau trwyddedu ar gyfer safle unigol lle bo angen a lle mae caniatâd i wneud hynny). | Ystyried sefydlu/cefnogi cynlluniau partneriaeth lleol e.e. Baner Borffor, Best Bar None, Pubwatch | Ceir canllawiau ynglŷn â sefydlu cynlluniau Baner Borffor yn: https://www.ATCM.org/programmes/purple_flag/WelcometoPurpleFlag<br><br>Best Bar None:<br>http://www.bbnuk.com/<br><br>Pubwatch:<br>http://www.nationalpubwatch.org.uk/<br><br>Mae'r arweiniad ar y LNL yn egluro sut y gellir rhoi disgownt i safle am gymryd rhan mewn cynlluniau arfer gorau: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118369/Late-Night-Levy-guidance.pdf<br><br>Dylai awdurdodau cyfrifol ddilyn y canllawiau i sicrhau mai'r cynlluniau yw'r camau mwyaf priodol, a'u bod wedi eu cynllunio a'u sefydlu mewn ffordd sy'n cynyddu llwyddiant i'r eithaf ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth cystadleuaeth.<br><br>http://www.local.gov.uk/web/guest/publications/-/journal_content/56/10180/6823763/PUBLICATION |
| **Amcan 4: Lleihau'r risg o niwed o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn Economi'r Nos** | | |

| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
|---|---|---|
| Dywed y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau i Gymru y dylid cynllunio gweithgareddau gorfodi gyda'r nod o leihau'r niwed a ddaw i gymunedau o gamddefnyddio sylweddau. Yn ogystal â thargedu gweithgarwch troseddu cynlluniedig difrifol (drwy weithgaredd Gweithrediad Tarian mewn partneriaeth ag eraill dan arweiniad yr heddlu), a gwerthiant ar y stryd, gellir lleihau niwed drwy ddefnyddio amodau trwyddedu i atal gwerthu SSN.<br><br>Dylai awdurdodau lleol hefyd annog safleoedd i leihau'r niwed a achosir gan ddefnyddio cyffuriau drwy<br><br>• Gytuno ar bolisi ar chwilio, atafaelu cyffuriau, blychau amnest a phryd y dylid galw'r heddlu;<br>• Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i adnabod ac ymdrin â phroblemau sy'n deillio o effeithiau defnyddio cyffuriau, yn enwedig cyffuriau sy'n gysylltiedig ag Economi'r Nos megis cocên;<br>• Atal gorlenwi mewn unrhyw fan, a darparu lleoedd oeri;<br>• Ystyried y defnydd o weinyddwyr toiledau, biniau offer miniog, a 'dylunio allan' / trin arwynebau gwastad;<br>• Arddangos gwybodaeth am effeithiau cyffuriau sy'n gysylltiedig ag Economi'r Nos, lleihau niwed oddi wrth gyffuriau ac ymosodiadau rhywiol a hwylusir gan gyffuriau;<br>• Caniatáu i gwsmeriaid gadw eu diodydd gyda hwy. | • Strategaethau i ddarbwyllo pobl rhag defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau seicoweithredol newydd, a lleihau'r risg o niwed i'r rhai sy'n eu defnyddio.<br>• Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi a buddsoddi yng Ngweithrediad Tarian. | Y Canllaw Diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu, 10.26-27, https://www.gov.uk/government/publications/Explanatory-Memorandum-Revised-Guidance-issued-under-s-182-of-licensing-Act-2003<br><br>Safer Nightlife, *Best practice for those concerned about drug use and the night-time economy* Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a Fforwm Polisi Cyffuriau Llundain yn 2006.<br><br>Ceir arweiniad pellach ynglŷn â strategaethau cyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd yn:<br>Public Health England, *New Psychoactive Substances: Toolkit for Commissioners* - www.nta.nhs.uk/New-psychoactive-substances-a-toolkit-for-substance-misuse-commissioners.aspx<br>Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (Mawrth 2015), *Cocaine Powder: Review of the evidence of use, harms and public health implications* https://www.gov.uk/government/publications/cocaine-powder-Review-of-its-prevalence-patterns-of-Use-and-Harm<br>Llywodraeth y DU, *Guidance on taking action against head shops* - https://www.gov.uk/government/.../Taking_action_against_head_shops.pdf |

**Nod: Cydgysylltu materion a pholisïau cynllunio a thrwyddedu yn effeithiol**

| **Amcan 1: Cyswllt effeithiol *o fewn* asiantaethau Diogelwch Cymunedol unigol, er enghraifft, rhwng adrannau trwyddedu a chynllunio awdurdodau lleol neu rhwng swyddogion trwyddedu'r heddlu ac uwch reolwyr mewn Unedau Rheoli Sylfaenol (BCUs).** | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
| Sefydlu mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â gweithgareddau Economi'r Nos, er enghraifft, rhwng timau trwyddedu'r awdurdodau lleol, adrannau cynllunio, Safonau Masnach, cludiant ac yn y blaen.<br>. | Strategaethau, arferion gwaith, protocolau a chytundebau ar y cyd i'w sefydlu rhwng adrannau perthnasol neu strwythurau o fewn awdurdodau lleol a Byrddau Cynllunio Ardal (BCA). | Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, Heddluoedd, Awdurdodau'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub i roi'r sylw dyledus i atal trosedd ac anhrefn wrth gyflawni eu holl swyddogaethau. |
| Nodi person arweiniol dynodedig ym mhob asiantaeth i hyrwyddo materion Economi'r Nos ar draws adrannau/timau. | Sicrhau arweinyddiaeth gref ar lefel uwch ynghylch agenda Economi'r Nos o fewn yr holl asiantaethau perthnasol. | Mae'n hanfodol cael un pwynt cyswllt ar gyfer materion Economi'r Nos, a gall y rôl hon fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yn ogystal â chwmpasu agweddau ar reolaeth canol tref sy'n ymwneud â hybu a datblygu a bod yn gyswllt â rheolaeth canol y dref yn y dydd. |
| Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) fod yn gyson â Strategaethau Cymunedol lleol, Cynlluniau Comisiynydd Heddlu a Throseddu a materion diogelwch cymunedol gan gynnwys rheoli Economi'r Nos.<br><br>Dylai cynlluniau cludiant lleol, casglu gwastraff, a chynlluniau tân ac achub hefyd ystyried materion Economi'r Nos.<br><br>Dylid adolygu strategaethau alcohol mewn cynlluniau camddefnyddio sylweddau lleol yn rheolaidd, eu monitro a'u cysylltu ag Economi'r Nos lle bo'n briodol. | Integreiddio materion Economi'r Nos i mewn i'r holl gynlluniau a strategaethau unigol o fewn awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. | Gall penderfyniadau cynllunio, yn ogystal â thrwyddedu, yng nghanol trefi effeithio ar rwyddineb rheoli Economi'r Nos yn yr ardal. Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7, Gorffennaf 2014, pen.10 http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/140731planning-policy-wales-edition-7-en.pdf<br><br>O dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub awdurdod mewn perthynas â diogelwch tân yn y rhan fwyaf o safleoedd annomestig, gan gynnwys safleoedd trwyddedig. |
| **Amcan 2: Cyfathrebu, cydlynu a chydweithio effeithiol rhwng yr holl asiantaethau Diogelwch Cymunedol**. | | |

| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac Arweiniad |
|---|---|---|
| Sefydlu grŵp strategol pwrpasol gyda throsolwg ar faterion sy'n ymwneud ag Economi'r Nos, a/neu grŵp tactegol yn cynnwys 'Hyrwyddwr' neu berson arweiniol dynodedig o bob asiantaeth a fydd yn gallu dylanwadu ar adrannau / timau o fewn eu hasiantaethau eu hunain gyda golwg ar faterion Economi'r Nos. Dylai'r rhain gael cyfarfodydd cynllunio, cydlynu a gweithredu ar y cyd.<br><br>Sicrhau bod gan fyrddau iechyd lleol, fel Awdurdodau Cyfrifol, ddigon o wybodaeth am y polisi trwyddedu i gyflawni'r swyddogaeth hon a'u bod wedi eu cynnwys yn yr holl drefniadau partneriaeth strategol a thactegol.<br><br>Sicrhau bod strategaeth cyfryngau ar y cyd yn ei lle er mwyn ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r wasg leol a'r radio i hyrwyddo sylw ffafriol, gan gynnwys straeon newyddion da am weithrediadau/ymyriadau llwyddiannus, heb gynyddu ofn troseddau. | Canllawiau, polisïau ac arferion gwaith amlasiantaethol, i hyrwyddo Economi Nos lewyrchus tra'n lleihau'r niwed o ganlyniad i droseddu neu anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol | Mae adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, Heddluoedd, Awdurdodau'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub i roi'r sylw dyledus i atal trosedd ac anhrefn wrth gyflawni eu holl swyddogaethau.<br><br>Arweiniad i gyrff iechyd lleol ar eu rôl fel awdurdodau cyfrifol:<br>https://www.gov.uk/government/publications/Additional-Guidance-for-Health-bodies-on-exercising-functions<br><br>Arweiniad pellach gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr i fyrddau iechyd lleol- www.nta.nhs.uk/PHE-licensing-guidance-2014.aspx |
| Gall y modelau, y strwythurau gwaith a'r cynlluniau hyn gynnwys:<br><br>• Cyfarfodydd cynllunio / plismona / trwyddedu strategol a chymunedol, rheolaidd<br>• Polisïau canol tref wedi eu cymeradwyo a'u cytuno gan yr holl asiantaethau a chynrychiolwyr busnes<br>• Gellir torri i lawr ardaloedd sydd yn broblem, yn y dydd ac yn y nos, i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau<br>• Targedu amlasiantaethol o'r 10 safle uchaf sy'n broblem<br>• Mentrau gorfodi ar y cyd rheolaidd ac wedi eu trefnu<br>• Fforymau arweinyddiaeth strategol<br>• Cysylltiadau cydnabyddedig ag adrannau trwyddedu a | Sefydlu modelau a strwythurau amlasiantaethol o weithio a datblygu cynlluniau gweithredu ar y cyd. | Mae '*Better Town Centres at Night* ' yn awgrymu gosod amlen o bolisïau o gwmpas gweithio mewn partneriaeth, gan gydnabod bod polisi ar ôl oriau yn croesi llawer o ffiniau proffesiynol, cyllidebol a sectoraidd. Mae angen strategaeth glir – seiliedig ar ymchwil gadarn, polisi cyhoeddus integredig a phartneriaeth aml-sector lwyddiannus (tud. 46).<br>https://www.ATCM.org/Purple-flag-files2/Purple-flag-files/files/20 Better_Town_Centres_At_Nght |

| | | |
|---|---|---|
| grwpiau gorchwyl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>• Safonau gofynnol yn eu lle ar draws pob safle nos yn cynnwys bwytai, gwestai, a phob math o safleoedd hamdden<br>• Ymweliadau amlasiantaethol i safleoedd trwyddedig<br><br>Hefyd, gall cynlluniau partneriaeth lleol, e.e. Baner Borffor, sicrhau gwell gweithio ar y cyd – gweler isod. | | |
| **Amcan 3: Coladu, asesu a chyfnewid data amlasiantaethol er mwyn rheoli Economi gyda'r nos ac Economi'r Nos yn well.** | | |
| Camau gweithredu | Prosesau i gyflawni'r amcan | Cyfeiriadau ac arweiniad |
| • Cytundebau ar gofnodi a rhannu data i gael eu gweithredu gydag ystod eang o ffynonellau sy'n bodoli eisoes fel data ambiwlans / A & E, trwyddedu awdurdodau lleol, SIA, Tîm Lleihau Niwed, gan gynnwys cofnodi'r rheswm dros fynd i'r Adran Achosion Brys<br>• Mae cofnodi ymweliadau ag adrannau Achosion Brys sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau (gan gynnwys pan fydd hyn yn ffactor eilaidd) yn arbennig o ddefnyddiol, yn enwedig lle mae modd cofnodi'r mannau codi / diod ddiwethaf<br>• Defnyddio cronfa ddata Safleoedd Trwyddedig yr heddlu fel mecanwaith cofnodi ar gyfer pob gwybodaeth sy'n ymwneud â safleoedd, gan gynnwys trwyddedigion, rheolwyr, amseroedd agor dyddiol, staff drws ac ati.<br>• Gweithredu'r System Goleuadau Traffig (TLS) drwy bob Uned Reoli Sylfaenol gan sicrhau bod cronfa ddata Safleoedd Trwyddedig a'r gronfa ddata TLS ar gael i staff gweithredol drwy ddyfeisiadau llaw.<br>• Technegau casglu data ansoddol yn eu lle. Er enghraifft, gall bugeiliaid y stryd roi gwybodaeth ddefnyddiol iawn wrth iddynt dramwyo canol trefi. | Coladu, cyfnewid ac asesu gwybodaeth gan nifer o asiantaethau | Mae Strategaeth Alcohol Llywodraeth y DU yn annog yr holl ysbytai i rannu gwybodaeth nad yw yn gyfrinachol ar anafiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol gyda'r heddlu, yn unol â chanllawiau'r Coleg Meddygaeth Frys (3.21-23)<br>https://www.gov.uk/government/publications/alcohol-strategy<br>http://secure.collemergencymed.ac.uk/Code/document.asp?ID=4881<br><br>Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn cynnig fframwaith i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru. Mae'n amlinellu set gyffredin o egwyddorion a safonau corfforaethol i sefydliadau partner rannu gwybodaeth. Efallai y bydd arweinwyr diogelwch cymunedol ac asiantaethau yn dymuno datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data.<br>http://www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50176<br><br>Offeryn gwybodaeth gynnar yw'r **System goleuadau** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **traffig** i nodi trwyddedau safleoedd problemus. Mae'r system yn defnyddio rhannu data rhwng yr heddlu a phrif ysbyty'r ddinas i gasglu gwybodaeth fanwl ar amser, lleoliad a natur troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.<br><br>Mae staff yr ysbyty wedi eu hyfforddi i gael gwybod gan ddioddefwyr, sydd wedi cael anaf difrifol, beth oedd union leoliad y digwyddiad, amser a dyddiad y digwyddiad, y math o arf a ddefnyddiwyd, a adroddwyd wrth yr heddlu am y digwyddiad, ac ym mha safle y cafodd y dioddefwr ei ddiod alcoholig diwethaf. Caiff y data a gesglir ei ddadansoddi gan Ddadansoddwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac wedyn fe'i defnyddir i ddyrannu pwyntiau yn ymwneud â math a difrifoldeb y digwyddiad a gofnodwyd ar gyfer pob safle. Caiff y safleoedd hyn wedyn eu categoreiddio fel naill ai coch (angen gweithredu ar unwaith), ambr (monitro'n fanwl) neu wyrdd (dim pryderon). Neilltuir swyddog trwyddedu penodol i'r safleoedd yn y categori coch sy'n cwrdd gyda'r safleoedd er mwyn llunio cynllun gweithredu a fydd yn ceisio 'gwella'r' safle yn fuan. Os bydd safleoedd wedi eu categoreiddio fel coch am gyfnod sylweddol, bydd Grŵp Gorchwyl Troseddau Treisgar yn craffu ar y rhesymau a gellir cymryd camau gorfodi, gan gynnwys adolygiad o drwydded y safle gan Heddlu De Cymru. |
| Gall Datganiad Polisi Trwyddedu (DPT) gynnwys pryderon iechyd cyhoeddus lleol, perthnasol, a ddangosir gan ystadegau iechyd lleol – er enghraifft, gellir triongli data niwed alcohol, gan gynnwys troseddu cysylltiedig ag alcohol, trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais yn y cartref ac ymweliadau ag Adran Achosion Brys gyda nifer y safleoedd trwyddedig mewn ardaloedd penodol. Gall byrddau iechyd lleol hefyd gyflwyno tystiolaeth academaidd am effaith argaeledd ar faint o alcohol a yfir, ac ar y cysylltiad rhwng dwysedd allfeydd ac yfed/niwed. | Defnyddio data iechyd a data amlasiantaethol arall yn sail i Ddatganiad Polisi Trwyddedu / cynllunio a phenderfyniadau trwyddedu / cynllunio. | Mae'r Canllaw diwygiedig a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, paragraffau 13.23 -13.38, yn cynnwys rhagor o wybodaeth ar PEG, gan gynnwys cyngor ar y mathau o dystiolaeth y gellir eu defnyddio (13.19 – 13.27).<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/Revised-Guidance-issued-under-section-182-of-the-licensing-Act-2003 |

| | | |
|---|---|---|
| Gall hyn helpu i ddatblygu polisi lleol gan gynnwys PEG, gan ddarparu tystiolaeth o'r ffordd y gall PEG gyfrannu at amcan(ion) trwyddedu.<br><br>Dylai byrddau iechyd lleol hefyd ddefnyddio'r data sydd ar gael iddynt i gyfrannu i'r broses drwyddedu (ceisiadau ac adolygiadau) er mwyn hyrwyddo amcanion trwyddedu, e.e. drwy rannu gwybodaeth sy'n dangos y risg o drosedd ac anhrefn y mae lleoliad arbennig yn ei hachosi. | | Arweiniad pellach gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar sut y gellir defnyddio data iechyd i gefnogi PEG, a sut y gall byrddau iechyd lleol ddefnyddio gwybodaeth am iechyd i gyfrannu i adolygiadau ac amodau trwyddedu - www.nta.nhs.uk/PHE-licensing-guidance-2014.aspx |

# Atodiad 1

## Dogfennau Allweddol

Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ac Adroddiad Blynyddol http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/substancemisuse/publications/strategy0818/?lang=en

Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013-2015 http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/substancemisuse/publications/dplan/?lang=en

*Public health and the Licensing Act 2003 – guidance from PHE and the Local Government Association, October 2014* - www.nta.nhs.uk/PHE-licensing-guidance-2014.aspx

*Public Health England, New Psychoactive Substances: Toolkit for Commissioners* - www.nta.nhs.uk/New-psychoactive-substances-a-toolkit-for-substance-misuse-commissioners.aspx

*Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau, (Mawrth 2015), 'Cocaine Powder: Review of the evidence of use, harms and public health implications'.* https://www.gov.uk/government/publications/cocaine-powder-review-of-its-prevalence-patterns-of-use-and-harm

**<u>Canllawiau Llywodraeth y DU</u>**

*The UK Government's Alcohol Strategy, 2012* https://www.gov.uk/government/publications/alcohol-strategy

*Next steps following the consultation on delivering the Government's alcohol strategy, July 2013* https://www.gov.uk/government/consultations/alcohol-strategy-consultation

*Revised Guidance Issued under section 182 of the Licensing Act* https://www.gov.uk/government/publications/explanatory-memorandum-revised-guidance-issued-under-s-182-of-licensing-act-2003

*Additional Guidance for health bodies on exercising functions under the Licensing Act 2003*. https://www.gov.uk/government/publications/additional-guidance-for-health-bodies-on-exercising-functions

*Guidance on Mandatory Licensing Conditions, Sept 2014* https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-mandatory-licensing-conditions

*Guidance on banning the sale alcohol below the cost of duty plus VAT – May 2014* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/311735/Guidance_on_BBCS_3.pdf

*Amended late night levy guidance – Dec 2012* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118369/late-night-levy-guidance.pdf

*Guidance on persistently selling alcohol to children – 2012*

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/98110/selling-alcohol-to-children.pdf

*ASB, Crime and Policing Act 2014, Statutory Guidance*
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/352562/ASB_Guidance_v8_July2014_final__2_.pdf

*Crisis in Care Mental Health Concordat* – i gael cyfeiriad unwaith y bydd wedi ei gwblhau.

# Atodiad 2

**Geirfa**

ABV – Alcohol yn ôl Cyfaint
APB / BCA – Bwrdd Cynllunio Ardal
ASB /  – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
ASBO – Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
ATC – Canolfan Triniaeth Alcohol
BCU – Uned Reoli Sylfaenol
CIP / PEG – Polisïau ag Effaith Gronnus
CSP / PDC – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
EMRO – Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore
LAAA – Ardal Leol Gweithredu ar Alcohol
LDP / CDLl – Cynllun Datblygu Lleol
LGA / CLlL – Cymdeithas Llywodraeth Leol
LNL – Ardoll Hwyr y Nos
MUP – Isafswm Pris Uned
NHS /GIG– Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NPS / SSN– Sylweddau Seicoweithredol Newydd
NTE – Economi'r Nos
PAT – Prawf Alcohol Paddington
PCC – Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
PHE – Iechyd Cyhoeddus Lloegr
SIA – Awdurdod Diwydiant Diogelwch
SLP / DPT– Datganiad Polisi Trwyddedu
TLS – System Goleuadau Traffig
WASPI – Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol
WEDINOS – Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru